

Yn y Rhifyn Hwn:

- Rybelwyr Dinorwig
- Dim Ysmygu

CYSTADLEUAETH BOETH!!

Daeth bro'r *Eco* i sylw Cymru gyfan ddiwedd Mawrth – a hynny am fod yn gartref i fwyty Indiaidd gorau Cymru 2007.

A Chymru'n gartref i dros dri chant o fwytai Indiaidd, gall perchennog bwyty Sopna, Pontrug, deimlo'n hynod falch o'i lwyddiant. Daeth y cyhoeddiad hwn wedi wythnosau o waith caled gan Shadek Ali – neu 'Sid' fel yr adwaenir ef gan ei gwsmeriaid ffyddlon.

Rhannwyd y gystadleuaeth yn dair rownd: y cwsmeriaid oedd yn gyfrifol am y rownd agoriadol, ac mi fuon nhw'n pledleisio'n ddiwyd er mwyn cyrraedd y rhestr fer o ddeg bwyty: tipyn o gamp i'r bwyty lleol o ystyried fod y naw arall wedi eu lleoli yng Nghaerdydd!

Yn yr ail rownd ymwelodd panel o feirniaid â'r bwyty ac ar ôl cael eu plesio, fe gyhoeddwyd fod Sopna wedi cyrraedd y tri olaf. Ar gyfer y rownd derfynol teithiodd Sid a'i gogydd i Gaerdydd, ble bu'n rhaid iddyn nhw goginio pryd i banel arall o feirniaid. Yn dilyn hynny, cyhoeddwyd mai Sopna oedd pencampwyr tai Bwyta Indiaidd Cymru.

Wrth drafod ei lwyddiant soniodd Shadek am gyfraniad ei gogydd, Mashuk Ali:

'Dan ni'n hynod ffodus o gael cogydd sydd â dros ddwy flynedd ar hugain o brofiad o goginio bwyd Indiaidd,' meddai. Mae Shadek Ali yn ymwybodol iawn o leoliad ei fwyty ac o Gymreictod yr ardal. Mae o'n teimlo'n gryf ei bod yn bwysig cyflogi pobl leol ac yn falch iawn fod aelodau o'i staff yn ddwyieithog. Mae'n siarad 'dipyn bach' o Gymraeg ei hun ac yn hyderus y bydd yn hollol rhugl mewn tair blynedd. Pob lwc!



Perchennog Sopna – Shadek Ali, neu Sid fel yr adnabyddir o gan bawb.

ECO'R WYDDFA

**RHIF 343
EBRILL 2007**

Argraffwyd gan Wasg Gwynedd
Cibyn, Caernarfon

Cydnabyddir cefnogaeth
Bwrdd yr Iaith Gymraeg
i'r cyhoeddiad hwn.

SWYDDOGION A GOHEBWYR

Tim Golygyddol
Erthyglau a newyddion
at ohebwyr pentref neu i
Penarth
Ffordd yr Orsaf
LLANRUG LL55 4BA
Ymholiadau Golygyddol
Llinos Jones
01248 374 962
llynoshaf@hotmail.com
07733211332
Straeon ac erthyglau ar e-bost
storiau@ecorwyddfa.co.uk

CADEIRYDD

Y PWYLLGOR GWAITH
Geraint Ellis

GOLYGYDD CHWARAEON

Richard L. Jones, 5 Y Ddôl, Bethel.
(01248) 670115

FFOTOGRAFFWR

Gwyndaf Hughes, Glasgoed,
Llanrug (677263)

TREFNYDD HYSBYSEBION

Eifion Roberts, Sŵn-y-Gwynt,
Llanberis (870740)
eifion@eifionroberts9.wanadoo.co.uk

TREFNYDD ARIANNOL

Goronwy Hughes, Eithinog, 14 Afon
Rhos, Llanrug (674839)

TREFNYDD GWERTHANT POST

Olwen Hughes, Eithinog, 14 Afon
Rhos, Llanrug (674839)

TREFNYDD PLYGU

Shioned Griffith (650570)

TREFNYDD BWNDELU

Marian Jones, Minallt, 7 Bro Elidir,
Dinorwig (870292)

GOHEBWYR PENTREFI

BETHEL: Geraint Ellis, Cilgeran
(01248) 670726

BRYNREFAIL: Mrs Lowri Prys Roberts-
Williams, Godre'r Coed (870580)

CAEATHRO: Clive James, Hafan, Bryn
Gwna (677438)

GEUNANT: Trystan a Sioned Larsen,
Bodafon, Ceunant (650799)

CWM-Y-GLO: Mrs Iris Rowlands,
Glanrafon (872275)

DINORWIG: Marian Jones, Minallt,
7 Bro Elidir, Dinorwig (870292)

LLANBERIS: Gwyneth ac Eifion Roberts,
Sŵn-y-Gwynt (870740)

LLANRUG: Eryl Roberts, 3 Bryn Moelyn
(675384)

NANT PERIS: Llinos Jones, 6 Nant
Flynnon (871820)

PENISARWAUN: Mrs Ann Evans, Sycharth
(872407)

TAN-Y-COED: Miss Anwen Parry,
Ael-y-Bryn (872276)

WAUNFAWR: Mrs Nan Roberts, Pantafon,
Waunfawr (650570)

Y RHIFYN NESAF

Deunydd i law'r
golygyddion perthnasol
NOS LUN, 16 EBRILL

Os gwelwch yn dda
Daw'r rhifyn nesaf o'r wasg
NOS IAU, 26 EBRILL

DYDDIAD A LLEOLIAD PLYGU'R ECO

Trefnydd Plygu: Mrs Shioned Griffith, Pantafon, Waunfawr. (01286) 650570

Rhifyn	Dyddiad Copi	Dyddiad Plygu	Ble	Cysylltu â	Rhif Ffôn
Mai	16 Ebrill	26 Ebrill	Deiniolen	Glyn Griffith	872 133

Llythyrau

Annwyl Olygydd

*Cystadleuaeth Llun adar yn
bwydo/yn yr ardd*

Fel y gwyddoch, mae'n hynod
bwysig i ni fwydo ein hadar
gwyllt ac yn enwedig yr adeg
yma o'r flwyddyn.

Hoffem fel cwmni, gynnig
gwobr i'ch papur bro am y llun
gorau/doniolaf o aderyn/adar
gwyllt unai yn bwyta, neu jyst
yn mwynhau ei hun/ain.

Gallwch unai feirniadu y
gystadleuaeth eich hun, neu mi
wnawn ni ar eich rhan. Gallwch
hefyd rannu yr oedran i gael
cystadleuaeth i blant dan 12 oed
ac un dan 112!

Y wobr fydd sachaid o fwyd
adar gwyllt gorau sydd wedi ei
becynnu mewn sach hessian
aml-ddefnydd brown.

Beth amdani? Gallwch
gysylltu a mi drwy e-bôst:
info@wild-bird-feed.co.uk
<mailto:info@wild-bird-
feed.co.uk>.

Edrychaf ymlaen i glywed
ganddoch.

Yn gywir

GERALLT ROBERTS

Brynteg
Tregarth

Annwyl Ddarllenwyr,

Dymunwn ddiolch yn ddiffuant
i bawb a fu mor garedig wrthym
yn ystod ein profedigaeth o golli
priod, mam a nain annwyl.

Diolch am yr ymweliadau, y
cardiau a'r galwadau ffôn, a'r
swm o £750 a dderbyniwyd er
cof tuag at Ward Moelwyn,
Ysbyty Gwynedd a'r clefyd
Motor Neurone.

Diolch yn fawr i bawb

Robert Hugh, Muriel,
Eric a'r teulu

Swyddfa Ffermwyr Ifanc Eryri

Glynllifon
Ffordd Clynnog
Caernarfon

Annwyl Olygydd,

*Cais i bawb edrych yn eu
cypyrddau, twll dan grisiau a'r atig!*

Tybed a oes gan eich darllenwyr
- aelodau presennol a chyn-
aelodau Mudiad Ffermwyr
Ieuainc Eryri - dlws yn eu
cypyrddau, twll dan grisiau
neu'r atig? Yn ddiweddar,
ceisiodd Dorothy Roberts,
Caerhun (aelod oes) leoli'r
tlysau drwy wirio rhestrau a hen
rifynnau o *Erwau*, blwyddlyfr y
Mudiad, ond yn anffodus,
darganfyddodd bod cynifer â
phedwar ar ddeg (14) ar goll!
Mi fyddwn yn falch o

dderbyn gwybodaeth am
unrhyw gwpan sy'n eich
meddiant - ffoniwch y swyddfa
(01286) 830214, neu cysylltwch
ag aelod o'ch clwb lleol.

Diolch yn fawr

ELERI EVANS
Trefnydd Eryri

Cof golofn Robert Closs

Mewn ymateb i erthygl gan
Margaret Wyn Roberts yn
rhifyn mis Mawrth am gofeb
Griffith Ellis, buaswn yn hoffi
cefnogi awgrym i godi cofeb i
John Closs.

Yn 1999, ar ôl treulio llawer o
amser yn darllen a
throsoglwyddo i'r Saesneg
lythyrau wedi eu hysgrifennu
gan hen ewythr i mi,
penderfynnais fynd i Cambria,
Wisconsin, UDA. Yna fe
ddarganfyddais berthynasau i
mi a oedd yn dal i fyw ar y fferm
o'r enw Ty'n Llan. Hon oedd y
fferm a adeiladwyd yn 1845 gan
Robert Closs, wŷr i John Closs.
Bûm yn y fynwent gerllaw, a
gwelais y gofgolofn hardd a
roddwyd ar ei fedd. Gerllaw
roedd beddau nifer o'i blant.
Deallais hefyd fod y capel bach
yn y fynwent wedi ei doi gyda
llechi o Chwarel Dinorwig.

Y mae yna nifer o'r Clossiaid
yn byw yn Wisconsin a
Nebraska. Cefais lythyr gan



*Coffgolofn Robert Closs ym
mynwent Cambria.*

Lorraine Hahn (Closs gynt) yn
dweud fod Cymdeithas
Gymraeg Wisconsin yn dod i
Gymru, ac yn enwedig i'r
fynwent yn Nant Peris yn ystod
yr haf. Rwyf yn gobeithio y câf
gyfarfod â hwy rhywdro yn
ystod yr haf.

OLWEN EBBRELL

RHODDION

£20: Hefina Jones a'r teulu, 8
Rhos Rug, Llanrug.

£10: Mrs Betty Humphreys,
Nant, Coed y Ddôl, Llanberis;
Huw Tegid, Arwel, Penisarwaun;
Haf Thomas, Buarthau, Llanrug.

£5.50: Gomer Thomas, Tregarth.
£3.70: Nancy Parry, Penygroes.

£5: Alwena Thomas, 8 Rock
Terrace, Llanberis; Michael
Aaron, 22 Maes Padarn,
Llanberis; Sian-Angharad Fisher,
43 Dôl Elidir, Llanberis; Muriel
ac Eric Williams, Brynteg,
Tregarth; Alwyn a Valmai, Hafle,
Deiniolen; Iris Rowlands,
Glanrafon, Cwm-y-glo; Mrs
Grace Tate, 1 Bro Deiniol.

£1: Reg, 9 Bro Elidir, Dinorwig;
Eileen Davies, 10 Bro Elidir,
Dinorwig.

YMDDIHEURIAD

Dymuna golygyddion yr Eco
ymddiheuro am osod lluniau
anghywir gydag erthygl Mair
Roberts, Dinas, Llanwnda, yn
y rhifyn diwethaf.

Cofiwch
anfon eich llythyrau
i'r golygyddion
drwy e-bostio:
storiau@ecorwyddfa.co.uk

Bistro
LLANBERIS
Ffôn 871278

www.ybistro.co.uk
Perchnogion: Danny a Nerys Roberts

CHWILOTA

Rybelwyr Dinorwig 1925



Bu cryn ymateb i'r llun a ymddangosodd ar dudalen flaen yr *Eco* y mis diwethaf – er mai yng nghrynsyth y golofn hon y dylai fod wedi ymddangos. Efallai mai da o beth oedd hynny, oherwydd cafwyd digon o wybodaeth amdano, ac am y rybelwyr – nid prentisiaid – a'u hyfforddwyr. Pan fenthyciwyd y llun gwreiddiol, dim ond dyddiad yn unig oedd ar gefn y llun, ac ni wyddai'r benthyciwr ddim mwy na hynny amdano. Yn wir, nid oedd sicrwydd ai llun o chwarelwyr Dinorwig ydoedd. Bellach, mae gwybodaeth lawn am y llun ac am bob un o'r rhai sy'n ymddangos ynddo. Gyda diolch arbennig i'r Meistri Owie Jones, Caernarfon (Dinorwig gynt), a Haydn Lewis, Penisarwaun, am fynd i gymaint trafferth i sicrhau'r wybodaeth gywir am yr holl bobl yn y llun. Diolch hefyd i bawb arall a gysylltodd gyda gwybodaeth am ambell unigolyn.

Bu'r llun yn cael ei arddangos yn 'Ystafell Ddarllen' yr Amgueddfa Lechi yn Llanberis hyd at rhyw ddeng mlynedd yn ôl. Yn ystod y cyfnod hwnnw, gryn ugain mlynedd yn ôl bellach, y cafodd Haydn Lewis y wybodaeth ynglŷn â'r unigolion yn y llun; ond mwy am hynny yn nes ymlaen. Dyma fel y mae Haydn yn adrodd yr hanes:

'Pan gyrhaeddodd fy nhaid, Joseph Salt, oed ymdeol, cafodd swydd i fod yn gyfrifol am ddysgu "hogia bach rwbela". Byddai'r hyfforddiant yn parhau am flwyddyn. Yn wahanol i hogia iard Gilfach Ddu, oedd yn gweithio'n ddi-dâl am y chwe mis cyntaf, roedd y rybelwyr yn cael tâl. Yn ôl John Morris, Rhiwen, chwe swllt ac wyth geiniog yr wythnos oedd y cyflog pan ddechreuodd yn 1927.'

Dyna osod y llun yn ei gyd-destun felly. Rybelwyr ifanc (sef gair y

chwarel am brentisiaid) yng ngofal chwarelwr profiadol sydd yn y llun, ac mae'n bur debyg fod pob un ohonynt yn derbyn tua pump neu chwe swllt yr wythnos o gyflog.

'Byddai'r hogia yn mynd o gwmpas y sied a'r domen rwbel i chwilio am glytiau bychan diwerth o lechi er mwyn ymarfer hollti a naddu. Yn dilyn yr hyfforddiant, byddent wedyn yn symud i weithio gyda chwarelwyr profiadol i orffen dysgu'r grefft. Bryd hynny, fe'u gelwid yn jermôn.' Daw'r gair o'r Saesneg 'journeyman', sef rhywun ar daith dysgu crefft.

Teithiai Joseph Salt o amgylch y gwahanol bonciau i hyfforddi fel y bo'r angen, ond mae'n ymddangos mai ym Mills Ffeiar Injan y tynnwyd y llun. A'r gŵr a roes y wybodaeth i Haydn, yn ogystal ac enwau pawb yn y llun, oedd y diweddar Sam Parry, Penisarwaun (Sam Insiwrans). Ymwelodd â'r Amgueddfa Lechi dros ugain mlynedd yn ôl bellach, ac enwodd pawb yn y llun, gan ei fod ef ei hun yn eu plith. Dyma felly yr enwau a gofnodwyd tua 1983:

Cafwyd mwy o wybodaeth gan Mr Owie Jones am Dafydd Evans y stiward. Fe'i magwyd yn Bron Fferam, ond roedd yn byw yn Maen Gwyn, Fachwen, pan oedd yn stiward yn y chwarel. Roedd hefyd yn un o lywodraethwyr Ysgol Dinorwig, ac yn un o'r ychydig lywodraethwyr oedd yn ymwelydd cyson â'r ysgol. Roedd ganddo ddau fab a thair merch.

Dymuna Haydn Lewis ddiolch i John Morris, Rhiwen, ac i Dafydd Roberts o'r Amgueddfa Lechi am gymorth gyda'r wybodaeth am y llun. Fy niolchiadau innau hefyd am ymateb mor drylwyr gan bawb.

Gyda llaw, byddai'n ddiddorol



Ysgol Llanrug 1938.

gwybod faint o ddisgynyddion y rybelwrs yn y llun a'u dilynodd i'r chwarel, a faint ohonynt sy'n parhau i fyw yn yr ardal heddiw. Anfonwch air.

Cofeb Griffith Ellis

Camgymeriad! Y llun a ymddangosodd yn rhifyn Chwefror o'r *Eco* oedd llun o gofologol Griffith Ellis – y mab! Gyda diolch i Margaret Roberts, Caernarfon am gysylltu gyda'r wybodaeth. Mae'r gofologol fawr farmor yn cofnodi claddfa Griffith Ellis (1821-1869), Prif Oruchwyliwr Chwarelau Dinorwig, ac Ann, ei wraig. Wrth ei ymyl mae bedd petryal o lechfaen, hanner uchder y llall, sy'n cofnodi marwolaeth a chladdfa y tad, sef Griffith Ellis (1785-1860), Prif Arolygydd y Chwarel. Coffeir hefyd ei wraig, Catherine, a phlant iddo a fu farw'n ifanc.

I ba un o'r dau Griffith Ellis y mae'r plac yn yr eglwys felly?

Mynd i'r Pictiws

Daeth y llun o Lyn Padarn wedi rhewi ac atgofion pur wahanol i un arall o genod Llanberis, pan sylwodd ar enw merch o Stryd y Pictiws. Aeth Rhian Williams o Gaerdydd ati i groniclo peth o'i hatgofion am y sinema yn Llanberis.

'Byddai mintai gref o blant yno bob pnaawn Sadwrn yn disgwyl am y ffilm gyntaf am bump o'r gloch. Yn hwyrach yn y noson, am wyth, y byddai'r oedolion yn mynychu. Roedd pawb o'r plant eisiau'r seddau canol yn y blaen, a byddai yno ddigon o weiddi, gwichian a chrio, weithiau drwy gydol y perfformiad.'

Swllt fyddai'r pris am y seddau blaen, deunaw am y gweddill: y plant yn y blaen, pobl barchus yn y canol a'r cariadon yn y cefn! Bryd hynny, roedd ffilmiau'n cael eu graddio'n U, A neu X. Câl plant weld ffilm U ar eu pennau eu hunain, ond roedd angen cwmni oedolyn i gael gweld rhai A. Du a gwyn oedd y rhan fwyaf o'r ffilmiau, ond byddai ambell un mewn lliw.

Mr a Mrs Wakeham oedd y perchnogion, ac mae'n siŵr iddynt gael llawer o broblemau'n ceisio cael ffilmiau oedd yn plesio pawb.

Roedd mynd mawr ar ffilmiau Charlie Chaplin, Patricia Roc, Roy Rogers a Shirley Temple, ac roedd Lassie yn ffeffryn hefyd. Ar ôl gweld y ffilm ar ddydd Sadwrn, byddai gweddill yr wythnos ddilynol yn cael ei threulio yn ail-actio'r perfformiad mewn gwahanol fannau yn y pentref – a ble'n well i chwarae Robin Hood na Choed Doctor? Pob merch eisiau bod yn Maid Marion a phob bachgen am fod yn Robin Hood.

Bu'r pictiws yn gyfrwng i lawer un ddeall a dysgu Saesneg er mwyn medru dilyn y stori ar y ffilm.'

Tybed oes gan rai eraill atgofion am y sinema yn Llanberis, a phryd tybed y daeth y sinema gyntaf i'r fro?

Llawr Pridd

Cafwyd cais yn holi am wybodaeth ynglŷn â lloriau pridd. Digon posibl nad oes unrhyw dŷ yn yr ardal bellach sydd yn parhau â llawr pridd iddo, ond tybed oes yna adfeilion yn rhywle? Mae'n sicr fod tai gyda lloriau pridd wedi gorosi ymhell i'r ganrif ddiwethaf, ond fod cyfnod y grantiau adnewyddu wedi rhoi diwedd arnynt.

Roedd yn arferiad i 'olchi' y llawr pridd gyda huddug, ac yr oedd hynny yn gymorth i roi wyneb caled eithriadol iddo. Tybed oes rhywun wedi clywed am yr arferiad hwnnw? Ond mae'n siŵr gen i fod huddug wedi mynd yn beth eithaf dieithr yn y fro erbyn hyn!

Gyda diolch i bawb am ymateb i'r golofn. Cofiwch anfon unrhyw wybodaeth neu ymholiad i Dafydd Whiteside Thomas, Bron y Nant, Llanrug, Caernarfon. (Ffôn: 01286 673515)



Rhes gefn (o'r chwith i'r dde): Closs Jones, Jack Penrhiz, Tom Bach, Jack Dan, Arthur Harri Lloyd, Bob Thomas (Ceunant), Sam Parry, Johnny Willie, Wally Cruson a Will Morgan (Felinheli).

Rhes Ganol (chwith i'r dde): David Evans (stiward), Harry Borth, Twm Cyttir (Creigle), Gwilym Price (Tŷ Gwyn), Elfed Penbryn (Ffrwd Goch), Rol Cae Poeth, Ellis Dre, Ifor Parry (Pwyswr), Huw Pritchard (Marciwr).

Rhes Flaen (chwith i'r dde): Huw Ellis (Cnocin), Emlyn Griffith (Fron), John Bryngwyn Mawr, Alun Williams (Brynlllys), Joseph Salt, Hughie Arthur Jones, Dic Owen (Fron Deg), Bob Dan (Penisarwaun), Gwyn Rhianfa a John Evans (Iard).

Briwsion Byd Natur

Dafydd Guto

BETH AMDANI?

Ew! wyddoch chi fod gennym yn ein henwlad ddwy Gymdeithas Byd Natur tu hwnt o ddiddorol sy'n cynnal eu gweithgareddau drwy gyfrwng y Gymraeg? A ydych yn aelod o Gymdeithas Edward Llwyd, (a sefydlwyd yn 1978), neu'n aelod o Gymdeithas Ted Breeze Jones, (a welodd olau dydd Mis Hydref 2003)? Os ydych yn hoff o adar, anifeiliaid, blodau, coed, planhigion, pryfed, pysgod, ymlusgiaid a ballu, dyma'r union ddwy Gymdeithas y dylsech, unwaith yr ymaelodwch â hwy, gael mwynhad o'r mwyaf o'u cael yn gwmni i chi.

Y mymryn lleiaf fyw erioed rŵan am yr hyn a gynhelir gan y ddwy Gymdeithas. Ydynt, maent yn cynnal cyfarfodydd dan do, ble y byddir yn gwrandao ar siaradwyr yn ymdrin hefo gwahanol bynciau. Cynhelir yn ogystal deithiau cerdded. Ceir ar gael gylchlythyrau a chylchgrawn, *Y Naturiaethwr* gan Gymdeithas Edward Llwyd ddwy waith y flwyddyn, a Chylchlythyr *Llygad Barcud* gan Gymdeithas Ted deirgwaith y flwyddyn. Y mae Cymdeithas Ted Breeze Jones, yn ogystal, yn cynnig gostyngiadau prisiau mewn rhai siopau yng Ngwynedd.

Yr hyn sy'n gwneud y ddwy Gymdeithas yn unigryw ydyw eu bod yn gymdeithasau 'teuluol', h.y. ceir rhieni, plant a phobl ieuainc, yn ogystal ag oedolion, yn cefnogi eu gweithgareddau. Na! dim byd snobyddlyd na thrymaidd yn eu cylch! Y mae'r cyfan fel bod adeg ar yr aelwyd, a phawb yn cyfrannu yn ei ddull bach ei hunan. Ar adegau bydd y ddwy Gymdeithas yn ymuno â'i gilydd ac yn mwynhau cydweithio er mwyn hyrwyddo byd Natur yma yng Nghymru ein gwlad.

Erfyniaf arnoch, os ydych ddysgwyr yr iaith Gymraeg, neu fel arall, i ymuno â Chymdeithasau

Byd Natur o'r fath, oherwydd drwy glywed, a chanfod enwau yn Gymraeg y dowch i sylweddoli bod cyfoeth Cymru i'w ganfod ymhlith adar, creaduriaid, a phlanhigion, ac yn bendifaddau'n rhywbeth na ellir fyth ei ladrata oddi arnom, ond inni wneud yr ymdrech, a pharhau i ddefnyddio'r enwau naturiol o Gymreig arnynt!

Diddorol nodi bod logo Cymdeithas Edward Llwyd wedi ei seilio ar Lili'r Wyddfa; planhigyn prin, a enwyd yn *Lloydia serotina*, er cof am Edward Llwyd. Darganfyddodd y blodyn yma yn Eryri yn ystod tymor yr haf, y flwyddyn 1688. A dyna chi! Beth amdani? A ydych yn dymuno ymuno? Dowch o'na! Am fwy o fanylion a thelerau, cysylltwch hefo:

Richard O. Jones, Ysgrifennydd Aelodaeth Cymdeithas Edward Llwyd, Pentre Cwm, Cwm, Diserth, Y Rhyl, Sir Ddinbych LL18 5SD
Ffôn: 01745 570 631

Annwen Breeze Jones, Ysgrifennydd Aelodaeth Cymdeithas Ted Breeze Jones, Bryneithin, Llandecwyn, Gwynedd LL47 6YF
Ffôn: 01766 770 833

Canlyniadau Cystadleuaeth Gŵyl Ddewi

Pa Anifail?

1. Llythyren gyntaf teitl llyfr
Bethan Wyn Jones, a gyhoeddwyd gan Wasg Carreg Gwalch, 2006. (Blodau Gwylt)
2. ... Ein Gwlad: llyfr John Ashton o Drefeglwys, Maldwyn. (Adar Ein Gwlad)
3. Aderyn a ddisgrifir gan Dafydd ap Gwilym fel *cwecwll lwyd* ac *Yn myned mewn lludded lwyd* / *A chywydd i entrych nen*. (Ehedydd)
4. *Tri pheth a gynny- ar law/ Gwly- ac ysgall ac ysgaw* (Dd)
5. Cyfrol y diweddar Ted Breeze Jones sy'n ymwneud â'r naturiaethwr o Fôn, T. G. Walker. (Gwyllo'r Gwylt)
6. Bydd y neidr ddu/neidr fraith, yn dodwy... (Wiau)
7. Y geinach/pry' Mawr ydyw. (Ysgyfarnog)
8. *Canllath o gopa'r mynydd*, rhyfeddod prin Bardd yr Haf. (Llwynog)
9. Yr *annog/cochgangen*. (Twb y Dail)

Y mae'r naw llythyren yn ffurfio'r enw **Baedd Gwylt**, a llongyfarchiadau rif y gwlith i'r enillwyr canlynol: T. J. Lewis, Y Rhath, Caerdydd; Musus G. W. Jones, Cwm y Glo, ac E. G. Munford, Llanrug. Y mae'r gwobrau wedi eich cyrraedd bellach!

Aduniad ar ôl Blynyddoedd Lawer

Mae dwy wraig o bentre Deiniolen wedi cartrefu bellach yng Nghartref Plas Mona, Llanfairpwll - y ddwy dros eu nawdeg. Cefais bleser yn eu cwmni y dydd o'r blaen yn gwrandao arnynt yn atgoffa'i gilydd o bwy oedd yn byw yn ble, a phwy oedd yn arfer cadw siop ar hyd strydoedd y pentre. (Gyda llaw, mae cof y ddwy yn berffaith glir, a byddai sesiwn yn eu cwmni yn drysor i unrhyw hanesydd.)

Byw adref gyda'i rhieni ac yna gyda'i phriod wnaeth Mrs May Jones, yn 10 Deiniol Road. Hi felly gafodd y cyfle i brofi'r cyfnewidiadau a welodd y pentre. Chwarelwr oedd ei thad a chwarelwr oedd ei phriod, nes iddo symud i weithio i Saunders Roe, Biwmares. Gadawodd Mrs Annie Williams, oedd yn arfer byw yn 10 New Street, ei chartref pan oedd yn bedair ar ddeg oed a mynd i weini ar ffermdy yn ardal Biwmares. Roedd yna was ar y fferm ac, ymhen rhai blynyddoedd, priododd y ddau a dechrau ffermio eu hunain mewn tyddyn bach yr oedd ei nain wedi ei adael iddo. O'u cartref gallent weld y *submarine* Thetis pan aeth i drafferthion ym Mae Traeth Coch flynyddoedd lawer yn ôl bellach.

Yma ym Mhlas Mona, ymhen 80 mlynedd, y cyfarfu y ddwy am y tro cyntaf ers iddynt adael yr ysgol. Ysgol Ganol Deiniolen, oedd wedi agor ers tua blwyddyn cyn iddynt hwy adael. Roeddent yn cofio eu bod, fel plant, yn cerdded o'r hen ysgol i fyny trwy'r pentref i'r ysgol newydd ar ddydd ei hagar.

Cefais fenthg llyfr rhyw bythefnos yn ôl gan Mr Robert Williams (Bob Caediciwm - roedd ei dad yn arfer gwerthu llefrith yn y pentre hefo ceffyl a chert, a byddai ef yn gwneud y rownd ar adegau pan na fyddai ysgol). Mae Bob wedi dod i fyw i Lanfairpwll yn ddiweddar. Llyfr ydyw a ysgrifennwyd i ddathlu Canmlyddiant Achos yr Annibynwyr yn Neiniolen ym 1923 ac enw'r awdur yw William John Hughes (Deiniolfryn). Mae hwn yn llyfr diddorol iawn ac yn siŵr o fod yn llyfr gwerthfawr i haneswyr. Mae'n olrhain hanes dechrau addoli yn yr ardal - yn enwi cartrefi lle y cynhelid oedfaon, ac enwau'r hen bobl Cafwyd tŷ yng Nghlwt y Bont (nid oedd pentref Ebenezer yn bod), enw'r perchennog oedd Siân Edwards, a thelid £1 y flwyddyn iddi am gael benthyg ei fenthg. Talwyd £115.00 am adeiladu y capel cyntaf, oedd yn mesur 10 llath wrth 9 llath, ac ynddo le i eistedd 19 o bobl

Y PARCH W. J. LEWIS

Dyddiadur Can Mlynedd

Wel dyma ychydig eto o'r dyddiadur a ysgrifennodd Mr Evan Parry-Jones, Tŷ'r Mawn, am y flwyddyn 1900, sef troad y ganrif.

15 Chwefror 1900: Claddu Richard Davies, Steward Chwarel.

16 Chwefror: Claddu Owain Williams, Clwt y Bont.

22 Chwefror: Claddu Susanna Hughes.

24 Chwefror: Marw Robert Hughes, Tab Room.

7 Mawrth: Priodi Edward Jones, York Terrace.

16 Mawrth: Priodi Thomas Rowlands Hughes.

23 Mawrth: Priodi Foulk William Foulkes.

24 Mawrth: Claddu G. Davies, Clark.

27 Mawrth: Marw Thomas Williams, Llainwen, ar y ffordd wrth ddod adref o'r chwarel.

8 Ebrill: Marw John O. Jones, ac hefyd heddiw bu farw yr hen wraig, Manllwyd.

13 Ebrill: Marw John Hughes, Pen y Bryn.

8 Mehefin: Priodi Thomas Jones, Ceunant Street.

13 Mehefin: Priodi William Williams Owen, Llainwen.

29 Mehefin: Priodi John Ellis, Y Glyn.

8 Medi: Marw Hugh Hughes, Fatery.

11 Medi: Priodi Mirris William Rowlands.

24 Medi: Marw Mam William Thomas, Llwythwr, Cwm y Glo.

25 Medi: Agor ysgol newydd Bryn Refail.

5 Hydref: Priodi Hugh Robert Roberts, Llwythwr.

10 Hydref: Priodi Richard Williams, Helfa Fawr.

13 Hydref: Marw Hugh Green, Cwm y Glo.

15 Tachwedd: Marw David Humthrey, Ceunant Street, a cael ei gladdu ar y 16.

2 Rhagfyr: Marw Ann Hughes, Pentre Castell.

19 Rhagfyr: Claddu Robert Jones, Tan y Bryn, Fachwen. Ond hefyd priodi John Williams, Helfa Fawr yn Capel Coch.

24 Rhagfyr: Priodi Robert Jeffrey, Fatery, Llanberis.

29 Rhagfyr: Marw John Roberts, Fron Olau. Ac hefyd marw mam William Owen, Pentre Castell.

Ac yn awr i'r flwyddyn 1907, gan mlynedd i'r mis hwn:

5 Ebrill: Marw Morris Roberts.

28 Ebrill: Marw Owen D. Jones, Llwyn Celyn.

Nawr mi rwyf am symud i'r flwyddyn 1932, ac edrych ar fis Ebrill, pump a thrigain mlynedd yn ôl:

23 Ebrill: Marw Ellis Williams, Fron Goch, ac hefyd yr un diwrnod modryb i Thomas Jones, Snowdon Street.

R. ELWYN GRIFFITH

GWASANAETH LLEOL AR GYFER
PARTIÖN • PRIODASAU
PEN-BLWYDD
BEDYDD • DAWNS • GWYLIAU

RHOSTIO MOCHYN
AR GYFER
POB ACHLYSUR

* Cig o ffermydd lleol

* Partion rhwng 40 a 400!

* Gyda saws afal a stwffin mewn rholiau

* Efo salad hefyd os dymunwch

DEWCS, MAE O'N FLASUS!
Cysylltwch â
JOHN BRYNAFON
LLANRUG

Y DYD CIG ar 675190 / 673188

Ffôn symudol: 07798 718788

wefan: www.ydyncig.co.uk

WAUNFAWR

Mrs Nan Roberts, Pantafon. Ffôn: (01286) 650570

Wedi blynyddoedd o waith gwirfoddol yn rhannu'r Eco i'r dosbarthwyr sy'n ei gario o ddrws i ddrws yn y pentref, ac o dderbyn a chadw cyfrifon yr arian am yr Eco, mae Marian Wyn Jones am gymryd seibiant.

Ar ran pawb, diolch i chi, Marian, am eich cymwynas a'ch gwaith.

Yn dilyn penderfyniad Marian i gymryd seibiant o'r gwaith o rannu'r Eco a derbyn yr arian, mae Haydn a Glenys, Rhandir Mwyn, wedi ymgymeryd â'r gwaith. Diolch i'r ddau ohonynt am fod mor barod i helpu gyda'r Eco.

CLWB 300. Enillwyr y Clwb 300 am fis Chwefror oedd: £40: Mr Aled Taylor, 10 Dolerddi; £25: Mrs H. Williams, 8 Croes y Waun; £10: Mrs Barbara Griffith, 10 Bro Waen.

SEFYDLIAD Y MERCHED. I ddathlu dydd Gŵyl Dewi eleni, daeth 23 o blant yr ysgol i'r cyfarfod i ganu a llefaru yn ardderchog am hanes Dewi Sant. Roedd yr holl aelodau wedi mwynhau'r cyngerdd yn fawr. Diolchodd Catherine Jones, y Llywydd, i'r plant ac i Mrs Gwenan Dafydd a Mrs Gwenda Griffith am eu hyfforddi mor drylwyr. Ar ôl y cyngerdd cafodd y plant, yr athrawon a'r holl aelodau de arbennig wedi ei baratoi gan yr aelodau.

Ar 5 Ebrill, Mrs Karen Jones, Tan y Waun, fydd y wraig wâdd. Bydd yn rhoi arddangosfa Crefft i ni. Croeso cynnes i aelodau newydd. Bydd y cyfarfod yn cael ei gynnal yn Ffestri cefn y capel am 1.30 o'r gloch.

GENEDIGAETHAU. Llongyfarchiadau i Alun a Catrin, Stad Croes y Waun, ar enedigaeth merch fach, Elain Angharad, chwaer fach i Gethin, Osian a Meleri, ac wyres fach i Gina Keller, Stad Tŷ Hen.

Llongyfarchiadau hefyd i Don a Luned Roberts, Sŵn y Gwynt, ar ddod yn daid a nain. Ganwyd mab bychan, Owain Fôn, i Martin a Miriam.

LLONGYFARCHIADAU hefyd i Beti Greasley, Stad Pant-y-Waun, sydd yn gapten ar y Tŷ buddugol yng nghystadlaethau Eisteddfod Ysgol Syr Hugh Owen, ac am ennill gwobr am ei gwaith cartref. Hoffem longyfarch pob disgybl o'r pentref a

fu'n cymryd rhan yn yr Eisteddfod. BEDYDD. Fore, Sul, 11 Mawrth, yng Nghapel y Waun, gyda'r Parchedig Trefor Jones yn gweinyddu a Mrs Catherine Jones wrth yr organ, bedyddiwyd Efa Llwyd, merch fach Iwan a Sara Davies, Bryn Melyn, a chwaer fach Siôn Ifan.

CROESO ADREF O'R YSBYTY. Roedd yn braf gweld Mrs Laura Pierce wedi gwella ar ôl iddi dreulio cyfnod yn Ysbyty Gwynedd, ac hefyd Mrs Nora Ferrarese, Gilfach, wedi iddi hithau dreulio cyfnod yn Ysbyty Gwynedd.

DYMUNWN WELLHAD BUAN i Mrs Sarah Lewis, Stad Tref Eilian, wedi iddi dderbyn llawdriniaeth ar ei llygaid.

Hefyd i Aled Griffith, Blaen y Nant, sydd adref o Ysbyty Gobowen, ble y cafodd lawdriniaeth ar ei benglin.

Mae Carwyn Huumphreys, Stad Ael y Bryn, wedi brifo ei fraich ac mae yntau mewn plaster paris.

Gobeithiwn y byddwch oll yn gwella yn fuan iawn.

CYDYMDEIMLO. Anfonwn ein cydymdeimlad dwysaf at Wendy Thomas, Tan y Foel, yn ei phrofedigaeth o golli ei mam yn frawychus o sydyn. Hefyd at yr hogiau yn eu tristwch o golli nain a oedd yn annwyl iddynt.

ANFONWN ein cydymdeimlad dwysaf at Mrs Olwen Owen, Noddfa, Stad Tref Eilian, yn ei phrofedigaeth drist o golli ei chwaer. YSGOL WAUNFAWR

Dydd Gŵyl Dewi Sant. Cafwyd diwrnod go arbennig ar Fawrth y Cyntaf. Penderfynodd y Cyngor Ysgol y dylai pawb yn yr ysgol wisgo gwisg draddodiadol Gymreig neu grys rygbi neu grys pêl-droed Cymru. Roedd angen i bawb dalu £1.00 ac roedd bwyd 'coch' ar gael yn y pnawn - jeli coch, diod coch, tost a jam coch yn ogystal â 'kebab' ffrwythau (mefus, babana, kiwi a grwnwin) i gynrychioli lliwiau baner Cymru. Braf oedd gweld fod pawb yn yr ysgol wedi ymuno yn y dathlu.

Treuliwyd y pnawn yn gwneud gwaith llaw ar Ddewi Sant tra'n gwrando ar fiwsig pop Cymraeg. Aeth côr yr ysgol i ddiddanu aelodau Sefydliad y Merched yng Nghapel Croes-y-Waun yn y pnawn a mwynhaodd pawb y te bach ar y diwedd. Diolch i bawb fu'n paratoi.

Dafydd Cadwaladr. Daeth Mr Dafydd Cadwaladr i'r ysgol ar 8 Mawrth i ddsygu'r plant am Gynnaladwyath. Bu'n hollti coed cyll ac yn dangos i'r plant sut y bydd yn gwneud ffens. Bellach mae Mr Cadwaladr wedi gosod y ffens ger y brif fynedfa ac yn yr ardd. Mi fydd hyn yn gryn fantais o ran diogelwch ac ati.

Trwynau Coch. Cafwyd diwrnod o hwyl ddydd Gwener, 16 Mawrth.

Roedd pawb yn gwisgo eu dillad eu hunain, trwyn coch ac wedi lliwio'u gwalltau a chasglwyd £150.00 tuag at ymgyrch 'Comic Relief'. Yn ystod y prynhawn cafwyd pnawn o 'jocs' yn yr Adran Iau gyda'r timau Eilio, Cwellyn a Gwyrfa'i yn cystadlu'n erbyn ei gilydd. Roedd yno athrawon gwahanol iawn yn yr ysgol y diwrnod hwnnw hefyd. Pwy ydi'r rhain, tybed?



CWM Y GLO

Mrs Iris Rowlands, Glanrafon. Ffôn: (01286) 872275

CYMANFA'R ANNIBYNWYR, CYLCH CWM Y GLO A DEINIOLLEN. Cynhelir y Gymanfa eleni ddydd Sul, 20 Mai, am 2.00 o'r gloch yng Nghapel Jeriwsalem, Llanberis. Taer erfynir am eich presenoldeb. Trefnir bws i gludo aelodau Deiniolllen, Penisarwaun, Cwm y Glo a Llanberis.

ADREF O'R YSBYTY. Croeso adref i Mrs Jean Hughes, 2 Bryn Gro, a Kevin Cyster o Ysbyty Gwynedd. Dymunwn wellhad buan i'r ddau.

YN YR YSBYTY. Anfonwn ein cofion at Mr Ted Roberts, Bod Gwilym, Allt Goch, sydd yn Ysbyty Frenhinol Lerpwl. Dymunwn wellhad buan iddo.

DIOLCH. Dymuna Iris Rowlands, Glanrafon, ddolch o galon am y cardiau, anrhegion a'r galwadau ffôn a dderbyniodd oddi wrth ei theulu a ffrindiau ar achlysur dathlu ei phen-blwydd yn 60.

UNDEB Y MAMAU. Gweinyddwyd y Cymun Bendigaid gan y Parch Robert Townsend yn Eglwys Sant Gabriel nos Lun, 5 Mawrth. Yn dilyn y gwasanaeth cafwyd cyfarfod a phaned yn yr Ysgol Gymuned. Croesawodd Mrs Dorothy Jones, Arweinydd y gangen, bawb i'r cyfarfod. Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth Mrs Marjorie Roberts a Miss Meira Williams. Trafodwyd rhai materion oedd i law gan Dorothy.

Yn gofalu am y lluniaeth oedd Mrs Gwen Owen a Dorothy. Rhoddwyd y raffl ganddynt hefyd ac fe'i henillwyd gan Mrs Enid Taylor. Diolchwyd i'r gwesteion gan Mrs Gwyneth Roberts. Terfynwyd y cyfarfod trwy adrodd y Gras.

YSGOL CWM Y GLO

Mae wedi bod yn fis prysur iawn yma yn Ysgol Cwm y Glo unwaith eto. Llongyfarchiadau mawr i'r ddau grŵp Dawnsio Gwerin. Daeth y Grŵp Dan 10 yn gyntaf yn yr Eisteddfod Cylch ac yn bedwerydd yn yr Eisteddfod Sir. Daeth y grŵp Dan 12 yn gyntaf yn y cylch ac yn

gyntaf yn y Sir hefyd. Da iawn wir blant, a phob lwc yn y Genedlaethol ym mis Mai.

Daeth amryw o wobrau i'n rhan ni hefyd gyda'r gwaith celf. Edrychwn ymlaen i weld beth yw eu hanes yn y Sir.

Cafodd yr Adran Iau fynd i'r Brifysgol ym Mangor i gymryd rhan mewn Gweithdai Gwyddoniaeth. Roedd yn ddiwrnod difyr ac addysgiadol dros ben.

Cafodd Ddosbarth Llydaw fynd am ddiwrnod i'r Amgueddfa Lechi yn Llanberis. Roeddynt wrth eu bodd yn cael bwrw iddi i wneud y gwaith celf.

Cafodd Blwyddyn 5 a 6 fynd draw i Brestatyn ar ymweliad â'r Pentre Peryglon. Cawsom ddisgyblion Penisarwaun yn gwmni ac roedd yn gyfle gwyb i atgyfnerthu'r hyn yr oedd y plant yn ymwybodol ohono eisioes, tra'n codi ymwybyddiaeth am beryglon cyfoes.

Cafodd yr Adran Iau fynd i'r theatre yn Llandudno i weld sioe am y Rhufeiniaid. Roedd yn hwyl ofnadwy gwisgo'r sbectol arbennig a sgrechian nerth ein pennau wrth 'weld' y saethau yn gwibio amdanom! Diolchwn yn fawr i'r Gymdeithas Rhieni ac Athrawon am eu cyfraniad hael at y weithgaredd.

Cafodd Babanod Dosbarth Peris fynd ar ymweliad i Eglwys Sant Gabriel yn y pentref, ac wedyn ar ddiwrnod arall, teithio draw i Fangor i weld y Gadeirlan. Diolchwn am y croeso cynnes a gawsant yn y ddau le. Roeddynt wedi rhyfeddu gyda'r adeiladau ac roedd Mrs Roberts yn dweud eu bod fel angylion bach!

Diolch i'r Cyngor Ysgol am archebu Trwynau Coch ar gyfer y diwrnod codi arian. Diolchwn yn fawr i'r genethod hynaf hefyd a drefnodd wahanol weithgareddau, fel paentio ewinedd. Roedd y smotiau ar ewinedd Mrs Davies yn werth eu gweld!



Y ffens o amgylch Ysgol Waunfawr.

LLANBERIS

Gwyneth ac Eifion Roberts, Sŵn-y-Gwynt. Ffôn: 870740

YSGOL DOLBADARN.

Ymweld â'r Den. Cafodd disgyblion Blwyddyn 3 a 4 b'nawn difyr iawn yn ddiweddar yn y Den – y lle chwarae newydd yn y Mynydd Gwefru. Roeddynt wedi cael eu gwahodd yno ar gyfer agoriad swyddogol y Ganolfan. 'Kev Bach' o Champion 103 oedd yn arwain yr hwyl.

Cafodd disgyblion Blwyddyn 5 weithdy pypedau gyda Owain Davies o Cwmni Cortyn. Roedd y weithgaredd hon yn rhan o broisect dan nawdd y Cwmni Gyfra.

Bu disgyblion Blwyddyn 4 hefyd mewn gweithdy celf a gynhaliwyd yn yr Amgueddfa Lechi. Yr artist y tro hwn oedd Catrin Williams.

Arolygiad. Erbyn hyn mae Adroddiad yr Arolygiad A gynhaliwyd ychydig cyn y Nadolig wedi ei gyhoeddi. Mae'r cynnwys yn destun balchder mawr i bawb sy'n ymwneud â'r ysgol, gan ei fod yn ganmoliaethus iawn o'r safonau, y dysgu a'r addysgu a threfniadaeth yr ysgol. Nodir bod 'y gofal a'r gefnogaeth a ddarperir i'r disgyblion yn rhagorol' a chanmolir cysylltiadau yr ysgol â'i chymuned ac â'r byd ehangach. Erbyn hyn mae'r Adroddiad ar gael i'w ddarllen ar safle gwe Estyn.

Ymweliad â Choleg y Bala. Dydd Iau, 15fed o Fawrth, aeth disgyblion Blynnyddoedd 3 a 4 ar ymweliad â Choleg y Bala. Cawsant gyfle i flasau rhai o brofiadau Iesu Grist yn ystod Wythnos y Pasg. Drwy gyfrwng gweithgareddau ymarferol a storïau fe gawsant brofiadau cofiadwy iawn. Diolch i staff y coleg am eu croeso ac am arwain y gweithgareddau.

Llwyddiant yn yr Urdd. Dydd Sadwrn, 17 Mawrth, bu'n rhaid i rai o'r disgyblion godi'n fuan i fynd i ragbrofion yn Eisteddfod Sir yr Urdd.

Roedd Huw yn cystadlu ar yr unwawd piano a'r unawd corn hefyd, gan ennill y ddwy gystadleuaeth. Pob hwyl iddo yn y Genedlaethol yn Shir Gâr.

Yn gynharach yn yr wythnos roedd nifer dda o ddisgyblion yr ysgol wedi cael gwobrau yn y cylch am eu gwaith celf ar gyfer yr Eisteddfod.

Gwyddonwyr y Dyfodol. Dydd Llun, 5 Mawrth, aeth disgyblion Blynnyddoedd 5 a 6 i'r Sioe Wyddoniaeth yn y Brifysgol ym Mangor. Cawsant ddysgu am bob math o bethau diddorol drwy sioeau a gweithgareddau ymarferol. Un o'r pethau mwyaf poblogaidd oedd canfod DNA nionyn!

CAPEL COCH. Ddydd Sul, Chwefror 25, cawsom gwmni Anna Jane Evans, Cymorth Cristnogol, yn oedfa'r bore a'r Ysgol Sul. Roedd gyda ni i gyflwyno 'Dechrau Newydd', sef Apêl 2007 Eglwys Bresbyteraidd Cymru i godi arian i helpu pobl yn Sierra Leone. Soniodd Anna Jane am ei hymweliad diweddar â Sierra Leone, a chawsom hanes rhai o'r bobl y bydd yr arian a godir eleni yn eu helpu. Mae'n amlwg fod pobl y wlad angen help mawr, yn arbennig wrth iddynt geisio dod â'u gwlad i drefn yn dilyn rhyfel cartref a barodd am ddeng mlynedd. Yn yr Ysgol Sul, soniodd Anna Jane hefyd wrth y plant am nwyddau Masnach Deg, â hithau'n ddechrau Pythefnos

Masnach Deg ar y pryd. Er ei bod yn hanner tymor yr Ysgol roedd criw da o blant wedi dod i'r Ysgol Sul i wrando arni.

Gobeithiwn y bydd y plant wedi bod yn brysur gartref yn gwneud cardiau Pasg ar gyfer cystadleuaeth sydd ynghlwm wrth Noson Goffi oedd i'w chynnal yn y festri ar Fawrth 28. Gosodwyd tasg i blant oed uwchradd o osod geiriau unrhyw emyn addas i'r Pasg ar daflen gyda chyfrifiadur. Roedd cystadleuaeth hefyd ar gyfer yr oedolion, i lunio erthygl ar gyfer *Gronyn*, taflen newyddion yr Ofalaeth, ar gyfer Sul y Pasg.

Cynhaliwyd y Cyfarfod Misol yn Capel Coch ar Fawrth 20, gyda Chapel Coch a Rehoboth yn ei gyd-groesawu.

CYNLLUN IEUENCTID

Mae'r gobeithion o gael gweithiwr Cristnogol i'n helpu gyda'r gwaith o gyflwyno'r Efengyl i bobl ifanc bro'r *Eco* yn parhau. Daethom at ein gilydd fel pwyllgor yn ystod y mis i weddio ac i wneud rhagor o drefniadau.

Gwyddom fod llawer o eglwysïr fro wedi dechrau ystyried ein cais am arian ar gyfer y cynllun ers iddynt dderbyn ein llythyr diweddar. Diolch i chi, aelodau'r eglwys, am roi ystyriaeth i'r mater pwysig hwn.

Un peth sydd angen ei bwysleisio yw mai cynllun yr eglwys lleol eu hunain yw hwn. Nid rhywbeth sy'n cael ei orfodi arnom o'r tu allan, ond cynllun sydd wedi codi o'n plith ni ein hunain. Mae croeso mawr i unrhyw un i ddod i'r cyfarfodydd gweddi a'r pwyllgorau, a chynhelir y nesaf yn festri Capel Coch, Llanberis, am 7.00 o'r gloch, nos Fercher, Mai 9. Dowch i ymuno efo ni.

Erbyn ein cyfarfod diwethaf, o fewn ychydig ddyddiau i dderbyn ein llythyr, yr oedd un eglwys wedi ymateb yn ffurfiol i'r cais am arian. Roeddem yn hynod o falch o ddeall bod yr eglwys honno yn addo £1,000 y flwyddyn i ni dros dair blynedd y cynllun, sef cyfanswm o £3,000. Roedd yr eglwys yn egluro ei bod yn bwriadu codi'r arian trwy drefnu gweithgareddau arbennig dros y tair blynedd nesaf.

Careu feddwl y byddai llawer o eglwysïr eraill y fro yn ystyried o ddifri gefnogi'r cynllun yr un mor



Huw Owen, Elin Tomos a Kimberley Jones yn aros am eu tro i gyflwyno'u hymgom.

hael. Gydag ymdrech ar ein rhan ni i gyd, gallwn sicrhau'r arian mewn dim o dro gobeithio.

Yr ydym yn dal i geisio arian o'r 'tu allan' fel petai, trwy anfon ceisiadau at yr enwadau yn genedlaethol, ond yn sylweddoli'r cyfrifoldeb sydd arnom ni ein hunain i wneud ein rhan hefyd. Mae'r cynllun hwn yn un cyffrous iawn, ac yr ydym yn hyderus y gall Duw ei ddefnyddio er mwyn cryfhau'r dystiolaeth Gristnogol yn ei bro.

DYMUNA Michael Aaron, 22 Maes Padarn, ddiolch i bawb am yr holl gardiau, anrhegion ac arian a dderbyniodd tra bu yn Ysbyty Gobowen ac ar ôl dod adref.

CYMDEITHAS LENYDDOL UNDEBOL. Nos Fawrth, 6 Chwefror, ni allodd Mr Geraint George ddod atom oherwydd gwailedd ond cawsom gwis dan ofal y Parchedig John Pritchard. Cafwyd noson hwyliog a llwyddiannus a diolch o galon iddo am drefnu ar fyr rybudd.

Nos Fawrth, 6 Mawrth, wedi gwella o'i anhwylder, cawsom gwmni Mr Geraint George yn trafod 'Tirlun, Tirwedd a Phobl'. Soniodd am ei ddwy gynefin, sef ei fagwraeth yng Nghwm Tawe ond erbyn hyn yn byw ym Mrynrefail yn ardal Eryri. Roedd yn noson ddiddorol a difyr a diolch iddo am ailgytuno i ddod atom i gynnal y noson. Llywyddwyd gan Miss Dilys Mai Roberts a thalwyd y diolchiadau gan Mrs Vera Davies.

CYMANFA'R ANNIBYNWYR, CYLCH CWM Y GLO A DEINIOLLEN. Cynhelir y Gymanfa eleni ddydd **Sul, 20 Mai, am 2.00 o'r gloch yng Nghapel Jeriwsalem, Llanberis.** Taer

erfynnir am eich presenoldeb. Trefnir bws i gludo aelodau Deiniolien, Penisarwaun, Cwm y Glo a Llanberis.

Nos Fawrth, 3 Ebrill am 7 o'r gloch, byddwn yn dathlu diwedd y tymor yn ciniawa yn y Bistro yn Llanberis. Y gwahoddedigion fydd y Prifardd a Mrs Twm Morus, Llanystumdwy. Edrychwn ymlaen am y noson ac am fwyd da gan Danny a Nerys.

DYMUNA Sian-Angharad Fisher, 43 Dôl Elidir, ddiolch yn fawr iawn i'r teulu, ffrindiau a chymdogion am y llu cardiau, anrhegion ac arian a dderbyniwyd ganddi ar achlysur dathlu ei phen-blwydd yn 18 oed.

HOFFAI Mrs Betty Humphreys, Nant, Coed y Ddôl, ddiolch o galon i bawb am bob arwydd o garedigrwydd ar achlysur ei phen-blwydd ac an y rhoddion hael tuag at Tŷ Gobaith.

DYMUNA Alwena Thomas, 8 Rock Terrace, ddiolch i'w theulu, cymdogion a ffrindiau am y cardiau, galwadau ffôn ac am yr ymweliadau yn dilyn ei damwain.

RAS YR WYDDFA. Bydd sesiynau ymarfer ar gyfer rasys y plant Ras Yr Wyddfa yn dechrau ar nos Lun, 9 Ebrill, yn y Ganolfan Llanberis am 6 o'r gloch. Croeso i bawb!

CANOLFAN GYMDEITHASOL LLANBERIS

Swydd ar Gael

Gofalwr Maes Parcio'r Ganolfan

Telerau i'w trafod.

Am fwy o fanylion cysylltwch a'r ysgrifenyddes ar 01286 871043



Gweithio efo Artistiaid Go Iawn. Ar ddechrau'r tymor hwn a diwedd y tymor diwethaf, bu Luned Parri yn artist preswyl yn yr ysgol. Dan ei harweiniad fe luniwyd sawl darn mawr o gelf 3D gan y disgyblion. Roedd y weithgaredd hon yn bosibl drwy grant gan Asiantaeth Gelfyddydol Gwynedd.

LLANRUG

Eryl Roberts, 3 Bryn Moelyn. Ffôn: (01286) 675384

Oherwydd amryfal resymau bu'n rhaid gohrio'r plygu yn Llanrug o nos lau i nos Wener, ac yna hyd y nos Lun ddilynol. Gyda diolch arbennig i bawb a ddaeth i gynorthwyo gyda'r plygu. Mae'n ymddangos nad oes fawr o lwc yn perthyn i'r plygu yn Llanrug; flwyddyn union yn ôl, bu'n rhaid brwydro drwy'r eira i gario'r papur o'r Wasg i'r pentref. Fe gyrhaeddodd yr eira fyfyr yn hwyrach eleni. CAPEL Y RHOS (am 10 o'r gloch) Dyma drefn yr oedfaon ar gyfer mis Ebrill

Ebrill 1: Y Gweinidog, Y Parch. Marcus Robinson

Ebrill 8, Sul y Pasg: uno yng Nghysegwr, Bethel (dim Ysgol Sul)

Ebrill 15: Parch. Geraint Hughes (dim ysgol Sul)

Ebrill 22: Parch. Olwen Williams

Ebrill 29: Parch. Gwynfor Williams

Cynhaliwyd Cyfarfod Gweddi Byd-Eang y chwiorydd ar bawn Gwener, Mawrth 2il. Cafwyd oedfa gynnes a bendithiol gyda chynrychiolaeth deilwng o'r eglwys a chapel i'r pentref. Diolch i bawb gymrodd ran ac fe fwynhawyd paned a bisged wedyn.

Merched Cristnogol Paragwai yn Ne America oedd yn gyfrifol am thema'r gwasanaeth eleni, sef 'Un ym Mhabell Duw'. Casglwyd £30 tuag at gronfa genedlaethol 'Y Dydd Gweddi'.

Nos Fercher, Ebrill 18fed, am 7 o'r gloch, cynhelir Gwasanaeth Sefydlu'r Parch. Marcus Robinson yn weinidog ar Gapel y Rhos yn Llanrug ac ar Gapel Cysegr ym Methel. Dewch i ymuno yn y gwasanaeth arbennig hwn er mwyn i ni gael rhoi croeso cynnes i'n gweinidog newydd ar ddechrau ei weinidogaeth yn ein plith. Bydd lluniaeth ysgafn ar derfyn yr oedfa. SEFYDLIAD COFFA. Enillwyr Clwb Cant mis Mawrth oedd:

£20: Mr G. Thomas, Gwenallt; £7: Mr G. Hughes, Eithinog; £5: Mr R. Thomas, 54 Nant y Glyn.

CROESO ADREF i Awen Humphreys, Stad Minffordd, ar ôl iddi fod yn teithio yn Awstralia am 3 mis.

DIOLCHIADAU. Dymuna Hefin, Melfyn a Sioned, Tecwyn ac Ellen, gwraig a phlant y diweddar Dic Jones, 8 Rhos Rug, ddiolch o galon i'w teulu, cymdogion a ffrindiau ymhell ac agos am yr holl garedigrwydd a ddangoswyd tuag atynt yn eu profedigaeth drist o golli gŵr, tad a thaid annwyl.

Diolch am yr holl ymweliadau a galwadau ffôn ac am y blodau hardd. Diolch hefyd am y rhoddion hael iawn a dderbyniwyd tuag at Ysgol Pendalar a Tŷ Gobaith, Conwy, er cof am Dic. Diolch i'r Parchedig Robert Townsend am y gwasanaeth teimladwy ac i Mr Arthur Roberts am ei deyrnged addas. Mawr ein diolch hefyd i Mr Dylan Griffiths, Penisarwaun, am y trefniadau gofalus a thrylwyr.

I Gofio Dick Cae Rhos

Chwarelwr, Teithiwr a Chefnogwr Mae bysys Arvonian yn segur, 'Does neb awydd trefnu 'run daith. Dim golwg o'r gyrrwr yn unman A'r tripiu yn cychwyn am saith.

Mae glaswellt hyd llwybr y chwarel A'r barcut yn hofran uwchben; Mae'r inclên dan haenen o fwsog A'r shift olaf un ddaeth i ben.

Dim hwyl yn Llanrug na Brynrefail, Fe gollodd y criw eu hen ffrind, Ac anodd i'r hogia yw derbyn Bod chwib y 'full time' wedi mynd.

Mae copa yr Wyddfa dan eira, A'i olion ar balmant y stryd, A bellach mae Dic yn ei wynfyd Ym mynwes yr lesu yn glyd.

A.O. ROBERTS

PEN-BLWYDD ARBENNIG.

Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Dafydd Whiteside Thomas ar ddathlu ei ben-blwydd yn 60 oed.

MERCHED Y WAWR. Ar nos Fawrth, 13 Mawrth, bu cangen Llanrug o Ferched y Wawr yn dathlu Gŵyl Ddewi yn y Ganolfan Gymunedol. Estynnodd Megan, yr Is-Lywydd, groeso cynnes i bawb. Cydymdeimlwyd ag Avril ar farwolaeth ei hŵyr bach newyddanedig, ac â Gwenda ar farwolaeth ei hewyrth.

Diolchodd Megan i bawb fu'n cynorthwyo yn y caffi yn Eisteddfod yr Urdd ac i Gwynfa am roi'r llefrith yn rhad ac am ddim ar y diwrnod. Diolchwyd hefyd i'r rhai fu'n cynrychioli'r gangen yn ail rownd y gystadleuaeth Bowlio Deg. Llongyfarchwyd Beryl ar dderbyn y Fedal Gee.

Cyhoeddwyd y noson Gelf a Chrefft ar 18 Mai yn Nhregarth (cystadleuaeth Sioe Llanelwedd ayyb), ynghyd â'r daith i Ganolfan Gwniadwaith Voirrey a'r Greyhound Retail Park (neu Caer yn unig) ar 14 Ebrill. Cynhelir Gŵyl y Pum Rhanbarth ar 12 Mai.

Y wraig wâdd oedd Siân Wyn Gibson, gynt o Ddeiniolen. Bu Siân yn gantores gyda chwmnïau opera ac ar hyn o bryd mae hi'n athrawes canu yn ysgolion Sir Conwy. Adroddodd fel y dechreuodd ganu mewn cyngherddau yn Ysgol Gwaun Gynfi, yn y capel ac yna manteisiodd ar wahanol gyfleon i ganu yn Ysgol Brynrefail. Bu Megan yn athrawes gerdd iddi ac felly nid oedd ond naturiol iddi hi gyfeilio iddi yn ein cyfarfod. Y darn cyntaf a ddewisodd Siân ei ganu oedd 'Unwaith Eto yng Nghymru Annwyl' ac yna rhoddodd dro ar 'Neb Ond y Sawl a Wyr'. Mae ganddi brofiad o ganu *lieder* ac opera a chanodd 'F'annwyl Wyt Ti' yn yr Eidaleg. Bu'n canu â Chwmni Opera D'Oyly Carte a chwmni Opera North, a pharhaodd gyda'i gwaith ledled Lloegr ar ôl priodi â bachgen o Ben-y-groes ac ymgartrefu'n lleol.

Ond, ar ôl cael y plant, Catrin Alaw a Siôn Wyn, penderfynodd nad

oedd am gario ymlaen â'i gwaith fel cantores opera. Edrychodd yn ôl ar y cyfnod pan oedd yn fam ifanc trwy ganu 'Nawr Huna'r Petal Porffor', sef y gân a ganai wrth geisio cael Catrin i gysgu. I ddiweddu dewisodd ganu 'Cilfan y Coed' a 'Lle Cerddi Di'.

Diolchodd Mair i Siân a disgrifiodd ei chyflwyniad fel 'treat go iawn'; dyna hefyd fuasai pob aelod oedd yn bresennol yn ei ddweud am ei pherfformiadau gwefreiddiol.

Yna bu pawb yn mwynhau bwffe ardderchog oedd wedi ei baratoi gan yr aelodau. Enillwyd y gwobrau raffl gan Eirianwen a Meryl a diolchwyd i Carrie, Megan a Bethanne am baratoi'r te.

Therapi Holistig yng nghwmni Tanya Marie, Rhosgadfan, yw testun y cyfarfod nesaf a gynhelir ar 10 Ebrill.

YR YSGOL GYNRADD.

Dydd Gŵyl Dewi. Gwisgodd y plant ddillad traddodiadol neu wisg Gymreig i ddathlu diwrnod ein nawddsant.

Diwrnod y Trwynau Coch. Gwerthwyd pob un trwyn coch, gyda phawb yn falch o gael cefnogi achos

mor deilwng. Bu cyfle i wisgo'r trwyn a dillad coch ar 16 Mawrth.

Eglwys Sant Mihangel. Aeth Blwyddyn 1 a 2 i ymweld â'r eglwys fel rhan o'u gwaith thema. Diolch yn fawr i'r Parchedig Robert Townsend a'r warden, Mrs Andrea Roberts, am eu croeso twymgalon.

Canolfan Ddringo Beacon. Mae disgyblion Blwyddyn 5 a 6 yn cael mynd i'r ganolfan yma am wersi ac maent wrth eu bodd yno.

Eisteddfod yr Urdd. Llongyfarchiadau i'r holl blant sydd wedi cystadlu eleni, boed hynny yn yr Eisteddfod Cylch neu'r Eisteddfod Sir, fel unigolyn neu fel rhan o barti. Da iawn chi, blant.

PLAID CYMRU. Cafwyd noson ddiffr o Gawl a Chân i ddathlu Gŵyl Ddewi, nos Fercher, 7 Mawrth, yng nghwmni Geraint Lovgreen. Roedd pawb wedi mwynhau noson hwyliog a difyr yn gwrando arno yn darllen ei farddoniaeth a chanu ei ganeuon gwefreiddiol. Diolch yn arbennig i Nan Humphreys am baratoi'r cawl blasus, ac i'r criw gweithgar fu'n trefnu a gweini ar y noson. Phyllis Ellis, Llywydd Cangen Llanrug, oedd wrth y llyw, a threfnwyd y raffl gan Meirwen Lloyd.



Dafydd J. Jones, Llywydd Clwb Rotari Caernarfon, yn cyflwyno 'Tysteb Rotari am wasanaeth gwirfoddol i'r Gymuned' i Haf Thomas, Buarthau, Llanrug, Gwynedd, mewn cydnabyddiaeth o'i gwasanaeth gwirfoddol arbennig i'r gymuned.

Mae'r ferch ifanc yma wedi gweithio'n ddiflino yn casglu dros £39,000 i wahanol elusennau ers 1995, ac yn wir haeddiannol o'r Anrhydedd yma a roddwyd iddi gan Glwb Rotari Caernarfon, ddydd Llun Mawrth 11eg 2007.

CERIS JONES

Teglan, Stâd Talybont

LLANRUG

677362

neu symudol

07979

620996

- Trwsio ceir a faniau
- Gwaith MOT
- Mecanic profiadol iawn
- Prisiau cystadleuol

Cofiwch ddefnyddio

SWYDDFA POST BETHEL

(01248) 670261

Cewch groeso cynnes gan

CLED A SUSAN

ORIAU AGOR

6 a.m.-7.30 p.m.

(Llun-Sadwrn)

6 a.m.-6 p.m. (Sul)

Cofiwch am ein gwasanaeth newid pres tramor, yswiriant, talu biliau, etc., yn ogystal â gwasanaethau arferol Swyddfa'r Post.

A hefyd Paypoint, Loteri a Pheiriant Tynnu Pres (Cashback)

CYNGOR CYMUNED LLANDDEINIOLEN

Cyfarfu'r cyngor ar y 6ed o Fawrth.

Gwedd. Darllenwyd y weddi safonol gan y Clerc.

Cofnodion Chwefror

Derbyniwyd y cofnodion fel rhai cywir.

Materion o'r cofnodion

Ateb Adran Ffyrdd Gwynedd eu bod yn benderfynol o beidio gosod blwch halen ger Gerlan, Clwt y Bont, er gwaetha'r perygl o ddamwain yno. Dywedodd Gwilym Williams ei fod yn teimlo'n gryf dros hyn a'i fod, fel Cynghorydd, yn ceisio'i orau ar ran yr etholwyr a bod Gwynedd mor ddifater. Ychwanegodd ei fod am ymddiswyddo o fod yn Gynghorydd os na allai lwyddo i gael gwasanaeth rhesymol i'r trigolion.

Symud mainc Bethel i'r Cae Chwarae. Daeth dau bris i law: G. J. K. Jones, Deiniolen a G. W. Owen, 18 Cremlyn, Bethel. Penderfynwyd derbyn y olaf. Cyflwynwyd pris G. J. K. Jones am atgyweirio cysgodfan bws Dinorwig a phenderfynwyd gofyn hefyd i G. W. Owen am bris.

Ffordd osgoi Bontnewydd/Caernarfon - copi o lythyr Cyngor Bontnewydd yn gofyn i Wynedd sut y byddant yn ymgynghori â'r cyrff priodol (danfonwyd copi i HPH ac RLJ).

Trem Eilian, Brynrefail. Ar gais y Cadeirydd, yn ystod y mis atgoffwyd Gwynedd o addewid Bob Daimond yn 2002 i osod tawelyddion ar y ffordd at y stâd - ystyrir hyn eto gan Dafydd W. Williams, gan obeithio am ateb maes o law.

Rhoddion 2006/2007.

Derbyniwyd diolch oddi wrth Clwb Snwcer, Bethel; Neuadd Bentref, Rhiwlas; Eisteddfod Gwaun Gynfi a Seindorf Arian Deiniolen.

Gohebiaethau a materion eraill

Adran Priffyrdd Gwynedd. Rhybudd o waith gosod troedffyrdd, mannau croesi ac arwyddion 50mya, Brynrefail. Penderfynwyd gofyn a fydd y droedffordd yn cyrraedd at ffordd Trem Eilian. Gwaith draenio yn ffordd y Capel, Dinorwig, yn parhau.

Cyhoeddwyd cyfarfod Pwyllgor Rhanbarth y Gogledd, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn Stiwdio Barcud ar y 23ain o Fawrth am 10.00. Y pwnc fydd Iechyd Meddwl.

Cyngor Tref Frenhinol, Caernarfon. Cais am gyfraniad ariannol at 'Ddydd y Cyn-Filwyr'. Penderfynwyd ateb i ddweud ein bod yn cydymdeimlo â'r achlysur ond

polisi'r Cyngor yw ystyried rhoddion unwaith y flwyddyn, yn yr Hydref. Dosberthir eu taflenni os bydd angen.

Cyfarfod Blyneddol Gwynedd â Chynghorau Cymuned, dydd Iau y 22ain o Fawrth am 18.30. Gwirfoddolodd y Gadeiryddes, Pat Jones, Phyllis Ellis a Geraint Hughes i gynrychioli'r Cyngor.

Dywedodd Aled Green bod arwyddbost Penisa'rwaun wedi ei baentio'n ddu a bod coed yn tyfu i'r lôn rhwng Rhosfair a Tan y Gaer - llythyr i Wynedd. Cyfeiriodd Hefin Williams at doriadau trydan yn ardal Rhiwlas, y golau'n fflicio ar y 3ydd o Chwefror a thoriad o dair awr ar y 5ed - llythyr i Manweb.

Teithwyr Chwarel Fachell

Dywedodd Huw P. Hughes ei fod ar fin cael trafodaeth gyda bargyfreithiwr ynglŷn â'r sefyllfa. Penderfynwyd dwyn y mater i sylw Mrs Dilys Phillips, Prif Swyddog Gweinyddol Gwynedd gan bwysleisio ar y:

- Perygl o ddamwain yno oherwydd bod y fynedfa ar fan tywyll;
- Iechyd cyhoeddus, gan eu bod yn defnyddio tir o gwmpas fel toiled;
- Aflonyddwch i fynychwyr yr Eglwys gan mai yno y maent yn cael dŵr.

Cynllunio

Cais i adeiadu tŷ a mynedfa ar dir ger Tan y Foel, Gallt y Foel: gwnaed sylw i Wynedd nad oes llawer o le ar y cynllun i geir barcio oddi ar y ffordd fawr ac a yw'r *balconi* a fwriedir yn gweddu i'r ardal a'r amgylchedd.

Cais Fferm Garth Fawr, Y Felinheli, i addasu adeilad allanol i 12 uned wyliau: gwnaed sylw i Wynedd pe bai'r cais am anneddlle i fab neu ferch y fferm buasai'n siŵr o gael ei wrthod ganddynt.

Cais i adeiladu stablau a gwella'r fynedfa, Rhos yr Wylfa, Y Felinheli: penderfynwyd gofyn i Wynedd wneud yn siŵr y bydd digon o le i gerbyd a threlar glirio'r ffordd fawr cyn aros i agor y giât.

Ceisiadau a ganiatawyd gan Wynedd:

Dymchwel yr adeilad presennol a chodi tŷ: tir ger Carfan, Llanddeiniolen.

Estyniad i'r tŷ ac i'r uned wyliau: Glan y Bala, Llanberis. Estyniad: 1 Penrhos, Bethel. Estyniad gwydr: Argraig, Seion. Ymestyn y gysgodfan feiciau: Caban Cyf, Brynrefail.

Dymchwel y cyn-gapel a chodi tŷ: Capel Seion, Llanddeiniolen. Dymchwel modurdy a chodi anecs: Niagara, Deiniolen.

Llwybrau

Ffordd Rhos Wian. Cyfeiriodd Phyllis Ellis at y gwaith draenio a wnaed yn ddiweddar a bod gweddill y llwybr mewn cyflwr difrifol. Darllenwyd ateb Gwynedd yn dal allan eto mai dim ond llwybr cerdded y maent yn gyfrifol amdano yno. Dywedwyd bod Alun Ffred AC wedi ymweld â'r safle ac wedi awgrymu i Wynedd i roi gwyneb caled ar hyd y ffordd, heb ei mabwysiadu.

Cymeradwywyd hyn gan benderfynu ysgrifennu i Wynedd i gefnogi'r Aelod Cynulliad.

Derbyniwyd mapiau a ffurflenni i ddargyfeirio llwybr Clwt y Bont i Frynteg.

Dyddiad y Cyfarfod nesaf: 3ydd o Ebrill.

Cyngor Cymuned Llanddeiniolen

Gweithwyr/Contractwyr Lleol

Dymuna'r Cyngor ffurfio rhestr o'r uchod ar gyfer:

- Atgyweirio eiddo'r Cyngor.
- Atgyweirio llwybrau cyhoeddus.
- Torri gwair ar llwybrau.

Ceisiadau i:

**John B. Jones, Clerc,
Ceris, Deiniolen,
Caernarfon. LL55 3LU**

Cefnogwch ein Hysbysebwyd

NANT PERIS


Llinos Jones, 6 Nant Ffynnon
Ffôn: (01286) 871820

TY'N LLAN. Cafwyd noson o Gawl a Chân yn Ty'n Llan nos Iau, Mawrth y cyntaf, yng nghwmni Pigyn Clust. Roedd y bwyd yn dda, a'r canu'n fendigedig, a chodwyd dros £200 tuag at elusen Motor Neurone.

Diolch i bawb am eu cyfraniad mewn unrhyw ffordd.

PEN-BLWYDD. Llongyfarchiadau i Val Owens, 7 Glanrafon Terrace, ar achlysur ei phen-blwydd yn 60 oed ar 6 Ebrill

**Mae'n rhaid i mi siarad
hefo rhywun**



Y SAMARIAID
(01248) 674985

UN FUNUD FACH

NABOD IESU

'Every good boy deserves food', a 'Face' a 'Wolfgang Amadeus Mozart, born 1756 Salzburg, died 1791 Vienna'. Fel y gwelwch, yn Saesneg y cefais i hynny o gerddoriaeth a ddysgais yn yr ysgol. A thra oedd cerddoriaeth yn ffeithiau hanesyddol a nodau mathamategol, mud ar bapur roedd y pwnc a minnau'n ffrindiau digon da. Ond wedi iddi wawrio arnaf mai rhywbeth i'w glywed a'i greu oedd cerddoriaeth, ac nad oedd gennyf na'r glust na'r ddawn briodol, tueddu i oeri wnaeth y gyfeillgarwch!

Wrth ddilyn y gyfres *Codi Canu* ar S4C yr wythnosau diwethaf, gallwn yn hawdd uniaethu â'r bobl oedd yn ymgodymu â'r dasg o ganu mewn côr. Ers dyddiau'r ysgol gynradd, unwaith yn unig y deuthum yn agos i fod yn aelod o gôr. Côr cerdd dant yn Ysgol Brynrefail oedd hwnnw. Ond er i mi fynychu'r ymarferion yn ffyddlon, penderfynodd yr hyfforddwr na allwn aros yn y côr, am fy mod yn canu 'octave yn is na phawb arall'. Minnau ar y pryd, mae'n debyg, yn meddwl mai compliment oedd hynny! Boed anwybod yn obaith.

Cyfres dda fu *Codi Canu*, a difyr oedd gweld y corau'n datblygu a gwella. Roedd canu yn brofiad cwbl newydd i'r mwyafrif o'r bobl yn y corau a gynrychioliai bedwar rhanbarth rygbi Cymru. Gan fod llawer ohonynt yn ddi-Gymraeg hefyd, roedd dysgu'r geiriau Cymraeg yn gryn her, heb sôn am ddysgu canu mewn tiwn. Fel y dywedodd un wraig cyn y rownd derfynol,

'Cyn hyn, nabod y dôn oeddwn i, heb wybod y geiriau.' Yn ddiamrwyl, mae'n debyg, roedd hi'n adleisio geiriau Gwenallt yn ei gerdd. 'Ar Gyfeiliorn' am 'wybod y geiriau heb adnabod y Gair'.

Mater o wybod y dôn yw crefydd i gymaint o bobl heddiw. Maent yn lled gyfarwydd â'r Ffydd Gristnogol, ond mae'r cyfan rwysut yn niwlog, heb fawr o eglurder nac ystyr. Rhyw dôn yn suo yn yr isymwybod yw crefydd: mae yno'n rhywle fel cerddoriaeth gefndir yr archfarchnadoedd, ond heb fawr o sylwedd a fawr o wybodaeth am Dduw. Mae geiriau'r Ffydd Gristnogol yn ddieithr iawn iddynt.

Ceir pobl eraill sydd â mwy i'w crefydd na hynny. Maent yn gwybod y geiriau, ac mae ffeithiau'r Ffydd yn gyfarwydd iddynt. Ac eto, nid yw'r wybodaeth Feiblaidd yn gwneud fawr o wahaniaeth i'r ffordd y maent yn teimlo neu'n ymddwyn neu'n ymateb i'r hyn sy'n digwydd o ddydd i ddydd.

Gwyddai Gwenallt am werth geiriau yn ein bywyd Cristnogol, ond gwelai hefyd nad oedd gwybod geiriau'r Beibl ynddo'i hun yn ddigon:

Gwae inni wybod y geiriau heb adnabod y Gair A gwerthu ein henaid am doffi a chonffeti ffair.

Nabod Iesu Grist, Y Gair a ddaeth yn gnawd, sy'n gwneud ein Cristnogaeth yn fyw ac yn real. Nabod Iesu sy'n rhoi gwir fywyd i ni, ac yn ein harbed rhag bodloni ar lai na'r cyfoeth sydd gan Dduw ar ein cyfer.

JOHN PRITCHARD

CYNGOR CYMUNED LLANRUG

Cynhaliwyd y cyfarfod diwethaf yn y Sefydliad Coffa, Llanrug, ar Chwefror 20fed 2007. Croesawodd y Cadeirydd Dafydd W. Thomas bawb i'r cyfarfod.

Cadarnhawyd cofnodion Ionawr 16eg yn gywir.

Cyflwynwyd adroddiad ariannol cyfredol gan Goronwy Hughes a diolchwyd iddo gan y cadeirydd.

Mynegwyd pryder fod sbwriel plastig yn cael ei chwythu yn dilyn casglu'r biniau ailgylchu. Does neb i'w weld yn clirio'r llanast yma. Hefyd, mae cryn lanast hyd y lonydd bach o gwmpas Tyddyn Rhyddid. Y clerc i gysylltu ag Adran yr Amgylchedd am hyn.

Penderfyniadau Pwyllgor Cynllunio Arfon – Caniatwyd y canlynol:

- codi modurdy domestig ym Maes y Bryn, Pontrug.
- Ail leoli dau dŷ ar y llain o dir ger Hafod y Glyd yn Llanrug.
- Rhan ddymchwel y tŷ presennol a gwneud estyniadau i Fwthyn Tŷ Draw yng Nghwm y Glo.

Ceisiadau newydd

Estyniadau yng Nghae Gwyniog, Llanrug. Dim gwrthwynebaidd ond fe fynegwyd pryder fod yr annedd hwn wedi cael ei gwota o estyniadau eisoes.

Adeiladu dau dŷ ger Pool Street, Cwm y Glo – yn bryderus fod y tai yn anghydnaws ag adeiladwaith bensaernïol draddodiadol y pentref. Hefyd mae problemau llifogydd yn debygol, ac yn fwy felly o'r dŵr wyneb fydd yn llifo i lawr o'r datblygiad arfaethedig wrth yr eglwys. Mynegwyd hefyd y byddai'n llawer gwell datblygu'r safle hwn ar gyfer datrys y problemau parcio enbyd sydd yng

Nghwm y Glo erbyn hyn.

Adeiladu canolfan ar gyfer pysgotwyr yn y Crawia Llanrug.

Mae'r cyngor yn dal wrth eu penderfyniad gwreiddiol ac yn GWRTHWYNEBU y cais hwn. Mae'r ffordd yn hynod o beryglus wrth bont Crawia. Mae amheuaeth wei bod yn y gorffennol ynglŷn â pherchnogaeth y tir arbennig yma. Roedd pryder hefyd fod y ffurflen gais wedi ei llenwi yn anghywir – adran Hawliau Tramwy'r Cyhoedd yn gwbl aneglur. Hefyd dywedwyd fod 'tŷ annedd' yno fel Defnydd Presennol – ond y gwir yw nad oes adeilad o gwbl yno. Y clerc i anfon y cais yn ôl ac yn tynnu sylw at y diffygion hyn.

Pasiwyd fod y fainc ar sgwâr Llanrug yn cael ei symud oddi yno. Yn anffodus mae'r llecyn hwn yn gyrchfan i bobl ifanc ac mae rhai o'r rheiny yn achosi llanast a difrod. Mae'r heddlu hefyd yn ymwybodol o'r broblem.

Cynhaliwyd noson recriwtio Ynadon Heddwch yng Nghaernarfon a chynrychiolwyd y Cyngor gan y Cyng. Eryl Roberts, Delyth Ross ac Alan Pritchard. Cafwyd adroddiad llafar gan Alan Pritchard a diolchwyd iddo gan y cadeirydd.

Bydd y Cyng. Dafydd W. Thomas ac Eryl Roberts, ynghyd â'r clerc, yn mynd i gyfarfod o Gynghorau Cymuned a Chynghorau Tref yng Nghaernarfon ar Fawrth 22ain.

Penderfynwyd ail ymaelodi â'r undeb Un Llais Cymru.

Cyfarfod nesaf o'r cyngor ar Fawrth 20fed am 7 o'r gloch yn Ysgol Gymuned Cwm y Glo.

CYNGOR CYMUNED LLANBERIS

Cofnodion Mawrth 2007

Cofnodion cyfarfod nos Iau y 15fed o Fawrth, 2007.

Presennol ac Ymddiheuriadau

Ward Padarn:, Emlyn Baylis, Barry Davies, Elwyn Davies, Derek Jones, Fred Owen, Douglas Pritchard, Helen Sharp (Cadeirydd), Trystan Thomas

Ward Peris: Iola Owen

Ymddiheuriadau: Gwenda Roberts

Datgan Buddiant

Mynegwyd buddiant gan nifer o'r aelodau wrth drafod dosbarthiad arian o Gronfa y Cymorthdaliadau Bychan.

Cadarnhau Cofnodion

Cadarnhawyd cofnodion cyfarfod nos Iau y 15fed o Chwefror, 2007. Cynnig ac eilio: DP / FO

Materion yn codi o'r Cofnodion

- Wedi holi chafwyd dim enw ar gyfer cyfethol aelod newydd i lenwi sedd y cyn aelod Raymond Jones.

- Nodwyd nad oedd pris codi carreg fedd yn y Fynwent wedi ei gofnodi yng nghofnodion Chwefror pan adolygwyd y prisiau claddu. Cytunwyd fis yn ôl y byddai'r gost yn £60 am godi carreg newydd, a £30 am dorri enw o'r newydd ar garreg oedd yn y Fynwent yn barod. Y prisiau newydd ar gyfer y Fynwent yn weithredol o ddechrau Ebrill eleni.

- Adroddwyd na chafwyd atebion eto ynglŷn â thrafferthion ar y ffyrdd.

- Cyfeiriwyd at gyflwr drwg y ffordd y naill ben a'r llall i'r pentref wrth ddod i mewn oddi ar ffordd osgoi Llanberis.

- Cyfeiriwyd at y palmant oedd yn beryglus a'r blerwch o gwmpas 'Brooke House' ger y Garej.

- Cyfeiriwyd at rwystrau sy'n parhau ar balmentydd Llanberis o flaen nifer o

(Parhad ar dudalen 15)

DODREFN PERKINS

(Safle'r hen Nelson)
CAERNARFON

Ffôn: (01286) 676 040

- Pob math o ddodrefn tŷ
- Cegin, 'stafell fyw, llofft
- Prisiau cystadleuol
- Carpedi, Llenni a Lloriau Pren

Silver STAR GWYLIAU SEREN ARIAN

- PECYNNAU GWYLIAU YM MHRYDAIN, EWROP AC YMHELLACH.
- TEITHIAU I GYNGHERDDAU A THEATRAU.
- TREFNU PECYNNAU GWYLIAU I GRWPIAU A MUDIADAU AM BRISIAU RHESYMOL.
- BWSIAU MODERN A MOETHUS
- GWESTAI O SAFON
- CWMNI TEULUOL
- MANNAU CODI YN CYNNWYS: LLANBERIS, CWM Y GLO A LLANRUG.

Am fwy o fanylion am ein teithiau, ffoniwch ein swyddfa ar y Maes yn Nghaernarfon ar 01286 672333

Byddwch yn llawer gwell allan hefo Ni!

SKODA	AUDI	SEAT	PORSCHE	VOLKSWAGEN
BMW	 Y Dewis arall Dibynadwy i Wasanaeth Y Prif Ddeliwr. Beth bynnag rydych yn ei yrru, o Audi i VW...			IMPORTS
PEUGEOT	  			GERMAN
FIAT	Cibyn Ind. Est., Caernarfon, Gwynedd LL55 2BD (01286) 673559 www.a-v-w.co.uk			SWEDISH
VOLVO	 			
	Car Service			
	MERCEDES			
	SAAB			

Dylan Griffith

TREFNWR ANGLADDAU ANNIBYNNOL a LLEOL TROS-Y-WAEN, PENISARWAUN

Yn gwasanaethu'r holl ardal yn cynnwys **PENISARWAUN, DEINIOLLEN, LLANRUG A LLANBERIS**
Gwasanaeth teimladwy, urddasol a phersonol.
24 awr y dydd

Ffoniwch: Dylan (Llys) ar 871833

Symudol: 07778 127394

HEFYD



CERBYDAU CLASUROL YR WYDDFA

Cyrhaeddwch mewn steil – mewn cerbyd *Rolls Royce* ar gyfer priodasau, pen-blwyddi ac achlysuron arbennig eraill

Ysgol Brynrefail

'Turn' ar gael

Mae turn gwaith metel ar gael yn Adran Dechnoleg yr ysgol i unrhyw un sydd â diddordeb. Yr unig gais yw eich bod yn trefnu i ddod i'w nôl (mae'n andros o drwm!!) ac efallai'n cynnig rhodd tuag at goffrau'r Adran Dechnoleg. Cyntaf i'r felin!! Neu i'r twrn!!!

Diwrnod Cenedlaethol y Llyfr - Mawrth 1af

Roedd eleni, unwaith eto, yn ddiwrnod llawn bwrlwm yma ym Mrynrefail, gyda nifer o weithgareddau er hybu darllen. Cynhaliwyd cystadlaeuath ar gyfer y disgyblion, gyda chliwiau cryptig am deitlau nofelau poblogaidd. Dwy ferch o flwyddyn 7 oedd yr unig ddwy i gwblhau'r cwis yn llwyddiannus ac ennill pecyn Uned 5 a thocyn llyfr am eu trafferth. Llongyfarchiadau mawr felly i Megan Lloyd a Ffion Erin Williams o 7e ar eu llwyddiant!

Tybed faint ohonoch chwi sy'n gallu datrys y pos:

1. Llyfr am hogan efo chwain?
 2. Llyfr i wneud i chi fynd allan?
 3. Llyfr am broblem anifeilaidd Dewi?
 4. Llyfr am hogyn yn ei gartref?
 5. Llyfr i godi gwynt?
 6. Llyfr am ddraenog?
 7. Llyfr am fechgyn efo ci?
 8. Llyfr am beidio dweud ta ta?
 9. Llyfr am fwyd mewn blodau?
 10. Llyfr am Lan Llyn?
- (Atebion yn y rhifyn nesaf!!!!)



Ffion Erin

Dyma lun un o fuddugwyr y gystadleuaeth: Ffion Erin. Mae Ffion yn ddarllenwraig frwd iawn - dyna pam y bu mor llwyddiannus yn y gystadleuaeth, siŵr o fod!! Ei hoff lyfr Cymraeg yw *Pen Dafad* gan Bethan Gwanas, ac mae'n hoff iawn o ddarllen gwaith Jaqueline Wilson yn y Saesneg.)

Disgybl Y Mis

Enw disgybl y mis yw Tomos Williams ac mae'n ddisgybl ym mlwyddyn 8. Dewisiwyd Tomos am ei waith cydwybodol yn gyson yn y gwersi Cymraeg ac am ei agwedd aeddfed tuag at ei waith. Prif ddiddordeb Tomos yw pêl-droed ac mae'n cefnogi clwb Lerpwl. Ei hoff chwaraewr yw Steven Gerrard. Bydd Tomos hefyd yn mwynhau beicio yn ystod ei amser hamdden, a'i gas beth yw pysgod!!! Bydd Tomos yn derbyn pecyn *Uned 5* am ei ymdrech - go dda ti !!!



Tomos Williams

Gymnasteg

Llongyfarchiadau gwresog i Jamie Stevens o Flwyddyn 8 ar ddod yn fuddugol yng Nghystadleuaeth Gymnasteg Ysgolion Cymru yng Nghaerdydd yn ddiweddar. Jamie bellach yw pencampwr bechgyn dan 13 oed dros Gymru gyfan!! Bydd Jamie yn mynd ymlaen i gynrychioli Cymru ym mhencampwriaeth Prydain Fawr yn Stoke yn ddiweddarach eleni. Edrychwn ymlaen at fwy o hanes dy lwyddiannau Jamie.



Jamie Stevens

Eisteddfod Yr Urdd

Rydym yng nghanol bwrlwm cystadlaethau'r Urdd ac erbyn y rhifyn nesaf o'r *Eco* gobeithiwn y bydd gennym adroddiad ar ein llwyddiannau ar eich cyfer!!

Y BWTHYN TÊ pen y ceunant isaf

LLWYBR YR WYDDFA LLANBERIS



PEN Y CEUNANT ISAF-
BWTHYN A ADEILADWYD AR
WAELODION LLWYBR YR WYDDFA
(O LLANBERIS)
YN YSTOD Y 18ed. GANRIF
CEWCH GROESO ARBENNIG
YMA, YN OGYSTAL A
GOLYGFYDD GWYCH DROS
LLYN PADARN A DYFFRYN PERIS

AR AGOR 9am - 9pm. BOB DYDD DRWY'R FLWYDDYN
DODYDD GYDA SCON NEU DEISEN (Dim prydau o gwbl)
MAN PARCIO O FLAEN Y BWTHYN • YN ADDAS I'R ANABL
Oriel arbennig o luniau Syr Kyffin Williams
a llu o arlunwyr Cymreig eraill

(01286)872606

www.ceunant.co.uk
steven@ceunant.co.uk



J.M.
JONES
A'I FEIBION
GWAITH
CERRIG
BEDDAU

Y Sgwâr Llanrug

Crefftwyr gwaith
llaw traddodiadol
Cerrig o bob math
ar gael -

Ffôn: (01286)
672898 (dydd)
676285 (nos)

Gwesty Dolbadarn

LLANBERIS Ffôn: 870277



Am groeso cartrefol Cymreig bob amser Aneuryn Jones a'r staff

H. E. HUGHES A'I FEIBION

Bwthyn Gadlys
LLANBERIS

FFôn: 870444



- Gwerthwyr Glo ac
- Olew Gwres Canolog i'ch cadw'n gynnes ac yn glyd!

Gorsaf Betrol Beran Deiniolen.



Golchi a ll'nau Ceir

Ar agor 7yb - 9yh bob diwrnod
Petrol, Diesel, Nwy Calor a Glo
Loteri, Papurau Newydd
Off Licence, Bake'n Bite
Brechdanau a Diodydd Poeth
Costcutter



01286 871521

- Priodasau • Dathliadau
- Achlysuron Arbennig • Cynadleddau
- Pwyllgorau • Bwydlen Bar
- Cinio Dydd Sul




**Quality Hotel
Llanberis**

(Gwesty'r Fictoria gynt)
— rhan o CHOICE HOTELS

wrth droed yr Wyddfa

Ffôn: Llanberis (01286) 870253

CAFFI'R WYDDFA



Gan na fydd adeilad copa'r Wyddfa yn agored yr haf yma, gallwn gyhoeddi gyda balchder mai Caffi Alwena (Hanner ffordd), fydd y caffi uchaf yng Nghymru am eleni o leiaf!

Ailgodwyd y Caffi bedair blynedd yn ôl wedi cyfnod o fod ar gau oherwydd difrod gan y

tywydd. Fe'i codwyd, er y rhwystrau gan yr awdurdodau, heb nawdd na heip. Mawr obeithiwn y bydd adeilad y Copa yn un mor dwt â phwrpasol ac yn gweddu i'r mynydd hanner cystal â Chaffi Alwena.

E. W. Pritchard CENTRAL GARAGE Llanberis

Ffôn: (01286) 870202

TREFNWYR ANGLADDAU
CEIR AR GYFER PRIODASAU



SNOWDONIA PARC WAUNFAWR

- Tŷ Rhydd • Bwyd Cartref • Prydau Plant
- Ystafell Deulu • Cinio Dydd Sul Traddodiadol
- Cerddoriaeth Fyw • Cwrw Go lawn

Ffôn: 650218

Am gymorth:

- i gychwyn prosiect
- i gael hyfforddiant
- i geisio am grant
- i redeg mudiad
- i wirfoddoli



Yn cefnogi grwpiau gwirfoddol a chymunedol
Supporting voluntary and community groups

cysylltwch â Mantell Gwynedd

— yn cefnogi grwpiau gwirfoddol a chymunedol
ymholiadau@mantellgwynedd.com www.mantellgwynedd.com

01286 672626 neu 01341 422575

Elusen Gofrestredig 1068851 • Cofrestrwyd yng Nghymru • Cwmni Cyfnyddig drwy Warant 3420271



Eisiau cyrls fel Ffion 'gwallt'?

Medd Ffion: "I gael rhif ffôn salon gwallt, ffonia gwasanaeth ymholiadau rhifau ffôn gan BT."

Galwa **118404**
Defnyddia dy Gymraeg!

Galwadau 24c y funud, bilio fesul eiliad, a phris cysylltu o 42c yr alwad (prisiau o linellau sefydlog BT, prisiau o rwydweithiau symudol ac eraill yn amrywio). Mae cyflenwyr eraill hefyd yn darparu gwasanaethau cyfeiriadur. Prisiau'n gywir ar y dyddiad argraffu.

www.bt.com/cymru



ETHOLIAD CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU 3 Mai 2007



Rhowch eich **dwy** bleidlais i
Blaid Cymru ar Fai y 3ydd i
gael y **ddau** i'r Cynulliad

**Alun Ffred Jones (Arfon) a
Dafydd Wigley (Gogledd Cymru)**



PLAID CYMRU

Hyrwyddwyd gan Plaid Cymru, 8 Stryd y Castell, Caernarfon, Gwynedd (01286) 672510

PENISARWAUN

Mrs Ann Evans, Sycharth. Ffôn: (01286) 872407



YSGOL GYMUNED

Gwobr Sgiliau Dŵr. Derbyniodd plant dosbarthiadau 3, 4, 5 a 6 dystysgrifau am sgiliau dŵr yn ddiweddar. Llongyfarchiadau i bob un ohonynt.

Ymweliadau. Dydd Gwener, 9 Mawrth, cafodd plant Blwyddyn 5 a 6 amser da yn cymryd rhan mewn gweithdy celf gyda Catrin Williams yn yr Amgueddfa Lechi yn Llanberis, a hefyd mewn gweithdy Barddoniaeth ar ddydd Gwener, 23 Mawrth.

Dydd Llun, 12 Mawrth, aeth Blwyddyn 5 a 6 gyda phlant ysgol Cwm y Glo i ymweld â 'Pentref Peryglon' yn Nhalacre, Sir y Fflint. Roedd yr ymweliad wedi ei drefnu gan Heddlu'r Gogledd a'r pwrpas oedd codi ymwybyddiaeth y plant o'r gwahanol beryglon sy'n bodoli. Cafwyd diwrnod hwyliog dros ben. Bore dydd Mawrth, 13 Mawrth, roedd 20 o blant CA2 wedi codi'n gynnar er mwyn dod i'r ysgol i fynd ar y bws i Ganolfan Awyr Agored Rhyd-ddu i aros dros nos. Cafodd pawb amser da iawn a diolch iddynt am fod yn blant mor dda, gan ymddwyn yn gwrtais. Diolch arbennig i Mr Cemlyn Jones a Mrs Morfudd Thomas am drefnu'r ymweliad. (Bydd ymateb rhai o'r plant i'r ymweliad, a lluniau, yn ymddangos yn y rhifyn nesaf.)

Aeth yr ysgol gyfan ar ymweliad â Choleg y Bala ar ddydd Mawrth, 27 Mawrth, er mwyn cael clywed hanes y Pasg yn fyw. (Mwy o'r hanes y mis nesaf.)

Diwrnod Trwynau Coch. Roedd y Cyngor Ysgol wedi trefnu gweithgareddau yn yr ysgol ddydd Gwener, 16 Mawrth, er mwyn codi arian i'r elusen. Cafodd pawb gyfle i wisgo pyjamas yn lle gwisg ysgol gan dalu dirwy o £1, a phrynu trwyn coch i'w wisgo ar y diwrnod. Diolch i bawb am y gefnogaeth gan sicrhau casgliad o £60.

PÊL BONWS LOTERI. Enillydd mis Chwefror oedd Carole Porter (Rhif 8). Llongyfarchiadau iddi.

Diolch i bawb a gefnogodd y Noson Bingo ar 29 Mawrth.

GENEDIGAETH. Llongyfarchiadau i Nicola ac Adam, 7 Bryn Tirion, ar enedigaeth Osian, brawd bach i Alun ac ŵyr bach i Janice a nai i Jac a Harri.

GWELLHAD. Ein cofion gorau at Mrs Nani Evans, 26 Bryn Tirion, sydd wedi torri ei braich yn ddiweddar. Adferiad buan i chwi. Ein cofion anwylaf hefyd at bawb sy'n sâl yn y pentref.

EIN CYDYMDEIMLAD llwyraf ag Anna Marie a Tudur Huws Jones wedi eu profedigaeth o golli chwaer i Tudur. Cydymdeimlwn yn ddwys â chi fel teulu.

EISTEDDFOD BENTREF. Cynhaliwyd Noosn Goffi nos Iau, 15 Mawrth, a diolchir i'r rhai a gefnogodd mewn unrhyw fodd. Cynhelir yr Eisteddfod nos Wener, 11 Mai.

YSGOL SUL BOSRA. Cynhelir Cymanfa'r Annibynwyr, Cylch Cwm y Glo a Dediniolen, bnawn Sul, 20 Mai, yng Nghapel Jeriwsalem, Llanberis. Trefnir bws, gan obeithio y ceir cefnogaeth gref.

Bydd yr Ysgol Sul yn ailgychwyn ar y Sul wedi i'r ysgol ddechrau wedi gwyliau'r Pasg.

APÊL Y CAPEL. Cynhaliwyd Bore Coffi llwyddiannus yn y capel fore Sadwrn, 10 Mawrth. Diolchir i'r aelodau fu'n brysur yn paratoi ac i bawb a gefnogodd mewn unrhyw fodd.

PEN-BLWYDD ARBENNIG. Pen-blwydd hapus arbennig i Avril, Careb, ar 3 Ebrill oddi wrth y teulu i gyd a phawb yn y pentref.

Llongyfarchiadau hefyd i Eifion Griffiths, 12 Llys y Gwynt, fydd yn dathlu ei ben-blwydd yn 80 ar 24 Ebrill.

PWYLLGOR NEUADD. Tynnwyd Clwb Cant Mawrth a'r enillwyr yw: David Phillips, Tai Arthur; Les Larsen, Llygad yr Haul; Mrs Annie Evans, 26 Bryntirion.

Gobeithir cael eich cefnogaeth gyda'r 'Ras Peli' i lawr Lôn Cae Hywel, nos Wener, 16 Mai am 6.00 o'r gloch. Bydd aelodau'r pwyllgor yn gwerthu rhifau'r peli am £1 yr un.

Tynnir Rhif Lwcus y Calendr hefyd ar y noson. Diolchir am eich cefnogaeth fel arfer.

DIOLCH. Dymuna Dr Huw Tegid ddiolch yn ddiffuant am yr holl gardiau a chyfarfion a gafodd yn sgil ei Ddoethuriaeth.



Diwrnod Trwynau Coch.



E-bostiwch eich storïau at:
storïau@ecorwyddfa.co.uk

CAEATHRO

Clive James, Hafan, Bryn Gwna.
Ffôn: (01286) 679501 (gwaith). 677438 (cartref)

BEDYDD. Ar ddydd Sul, 11 Mawrth, bedyddiwyd Elis Gruffudd Jones, mab Yvonne Griffiths-Jones ac Eryl Jones, gan y Parch Dafydd Hughes yng Nghapel Caeathro. Trigant ym Methel.

PEN-BLWYDD. Llongyfarchiadau i Gwenno Bebb ar ddathlu ei phen-blwydd yn 40 oed. Ar ôl te parti ym Mryn Mair, cafwyd diwrnod a noson i'w cofio i'r teulu i gyd yng Ngwesty Dewi Sant, Sir y Fflint.

TYNFA MISOL. Enillwyr Tynfa Misol Cymdeithas Cae Chwarae Caeathro ar gyfer mis Mawrth oedd: £40: (11) Antony a Tracy Jones, Islwyn, Stad Glyndŵr; £25: (97) Dewi Jones, 13 Erw Wen; £15: (6) Viv Morgan, Tyddyn Uchaf; £5: (111) Johni Morris, 7 Bryn y Gof.

HELFA WYAU PASG. Gofynnir i blant oed cynradd ac iau ddod

gyda'u rhieni i faes parcio Tafarn Bryngwna erbyn 11.15 dydd Sul y Pasg. O fannu byddwch i gyd yn cyd-gerdded at yr Helfa Wyau Pasg draddodiadol a bydd cyfle i bawb o bob oed gymdeithasu. Diolch i hapchwaraewyr y Tynfa Misol am eu cefnogaeth parhaol sy'n cyllido'r hwy i'r plant adeg y Pasg.

GWASANAETHAU'R CAPEL.

Bydd y gwasanaethau canlynol yn cael eu cynnal yn ystod mis Ebrill:

- 1: Dim gwasanaethau;
- 8: (Pasg) am 10.00 y bore, Gwasanaeth Sul y Pasg;
- 15: Dim gwasanaethau;
- 22: 11.00: Ysgol Sul
- 2:00: Mr Huw Jones;
- 29: 11.00: Ysgol Sul.

GENEDIGAETH. Croeso i Milly Grace, plentyn newyddanedig Karen a Simon Element, Plas Glan Gwna.

Sychlanhau • Altro

Ailwnio

Gwasanaeth
Casglu a Danfon

54 Stryd Fawr
Llanberis

Ffôn: 870088

SWIGOD A SEBON



GWASANAETH GOLCHI A SMWDDIO

Adolygiad Martin Llewelyn Williams o *Bywyd Bach* gan Gwyn Thomas

Cyfres y Cewri
Gwasg Gwynedd. £7.95.

Anaml y bydda i'n prynu llyfr Cymraeg newydd sbon. Gwell gen i fenthyca ambell lyfr hen neu un eithaf newydd o'r llyfrgell, a hynny am ddim! Wedi'r cyfan, os nad oedd y profiad o'i ddarllen yn un pleserus a difyr yna, o leiaf, gellid dweud na wastraffwyd yr un geiniog.

Gwybod yn iawn

Ond fe wyddwn yn iawn na fyddai *Bywyd Bach* Gwyn Thomas yn gambl o gwbl. O ddifrif? Hunangofiant sych, cul, hirwyntog a diflas gan Athro Cymraeg sy'n defnyddio llaweroedd o eiriau mawr crand anodd eu deall, a hynny heb unrhyw beth i'w ddweud o ddiddordeb i'r rhan fwyaf o Gymry Cymraeg yr unfed ganrif ar hugain? Dim o gwbl...

Fel, er enghraifft, T. H. Parry-Williams a D. Tecwyn Lloyd, nid yw'n cyfyngu ei ddiddordebau i ddysg llyfrau yn unig. Faint ohonom fyddai wedi hoffi cael tynnu ein llun gyda'r diweddar Gawr Addfwyn?!

Llên a llunyddiaeth

Yn ogystal â llenyddiaeth (afraid dweud!) mae hefyd yn ffan o lunyddiaeth (gair da).

Mae digrifwch Laurel a Hardy wedi sefyll prawf heneiddio ac amser. Cawn wybod ei fod yn edmygydd mawr o Robert Mitchum (yn hollol – nid oes terfyn ar y math o bynciau y gall y Gymraeg eu trin rhwng dau glawr), Richard Burton a John Ogwen – hunangofiant rhif 16 yng Nghyfres y Cewri – a *Bywyd Bach* GT yw'r degfed ar hugain yn y gyfres boblogaidd yma.

Y mae ei sylwadau craff am ambell i ffilm Saesneg yn fy atgoffa o ddarnau difyr yn *Dirgel Ddyn* gan Mihangel Morgan. Trueni nad yw'n dewis ein goleuo gyda sylwadau difyr am hufen yr hufen o ffilmiau Cymraeg – er ei fod yn crybwyll *Y Chwarelwyr* er mwyn adrodd stori fach ddigon diddorol tua'r diwedd, ond dyna i gyd.

Tician dadlennol

Troi'r cloc yn ôl a gadael iddo dician mewn rhythm ddadlennol a llesmeiriol – dyma beth yw hunangofiant da.



Ar Ben Arall y Lein

Ar ôl crwydro tipyn yn ystod y misoedd diwethaf, rhaid dweud rhyw air bach yn nes adref y mis yma. Fel sy'n arferol yr amser yma o'r flwyddyn, tawel iawn yw pethau, a felly y bydd ar yr afonydd hyd nes iddi ddechrau cynhesu tipyn. Cofiwch yn ystod 2006 roedd hi bron yn ddiwedd Mai cyn i'r afonydd ddechrau pysgota o ddifri.

Eleni prin iawn yw'r brithyll ond mae tipyn o hen gelts o gwmpas, egiad llynedd yw'r rhain sydd ar eu ffordd yn ôl i'r môr. Rhaid bod yn ofalus gyda rhain a'u dychwelud i'r dyfroedd, gan fod cosb lym i'w chael os penderfynith rhywyn anwybyddu'r ddeddf. Y pysgod yma, wrth gwrs, ddaw yn ôl yn ystod tymor 2008, wedi tyfu i dros 10 pwys, felly mae'n gwneud synnwyr i'w trin gyda pharch.

Erbyn dechrau Ebrill bydd cryn sylw'n cael ei roi i Lyn Padarn – llyn sy'n pysgota'n dda er ei bod yn oer. Bydd cyfle i fynd i'r afael â'r torgoch, a'r lle gorau yw o ochr y lein bach, dros y ffordd i Llyn Tan Pant; cynrhon, wrth gwrs, ddylai'r abwyd fod.

Mae Llyn Dywarchen wedi cael ei stocio er canol Mawrth, felly bydd cryn ymweld â'r fan yma, yn enwedig ar ei agoriad ar laf Ebrill – cofiwch mai dau 'sgodyn yn unig y diwrnod yw'r rheol. Bydd stocio yma unwaith y mis hyd at ddiwedd Mehefin,

yna pob pythefnos wedyn at diwedd Medi.

Mae cryn bwysau'n cael ei roi gan Undeb Canwio Cymru i geisio cael deddfwriaeth ble bydd canw-wyr yn cael defnyddio pob afon a llyn yn y wlad unrhyw dro y dymunant. Maen't yn cynnal trafodaethau â pherchnogion y dyfroedd, gan fynegi mai eu hawlfraint yw cael mynd i ble y mynont, heb unrhyw rwstr. Coeliwch neu beidio mae'r Gymdeithas wedi bod yn ceisio dal pen rheswm â hwy a'r Cyngor Chwaraeon ers 1986. Rydym hefyd wedi ceisio cydweithredu gyda Asiantaeth yr Amgylchedd ond, yn ôl pob golwg, dydi'r rhain chwaith ddim eisiau gwybod.

Ar rai afonydd yng Nghymru mae pethau yn go ddrwg, ac anodd yw credu fod Undeb Canwio Cymru yn derbyn degau o filoedd o bunnoedd y flwyddyn i redeg yr undeb gan y Cyngor Chwaraeon. Arian o'r Cynulliad yw hwn, sef arian trethdalwyr, ac mae'n cael ei ddefnyddio i annog torcyfraith. Mae un peth yn sicr, os buasai Cymdeithasau Pysgota Cymru yn ymddwyn fel hyn, o fewn dim amser mi fuasen oll yn cael ein colffarnnu gan y Cyngor Chwaraeon ac Asiantaeth yr Amgylchedd am fod yn afresymol ac yn cael ein bwgwrth gyda holl rym y gyfraith. A oes rhywbeth o'i le yn rhywle tybed!!

HUW PRICE HUGHES

A chyn i mi anghofio am fydd y ffilm, dwi'n siŵr y bydd rhai o ddarllenwyr hynaf yr *Eco* yn mwynhau cofio am oes aur (?) y pictjwrs. Oes a ysbrydolodd filoedd o Gymry ifanc i chwarae cowbois

Ac roedd yna nifer o gemau eraill yn difyrru plant ardal y Blaena a'r ardal hon; chwarae marblis, concyrs, bachyn a phowl, ceffyl bach, cyrcs poteli llefrith, gwaith corcyn a hyd yn oed gwneud tjips!

Nid yw GT yn dweud hyn mewn ffordd blwmp a phlaen (cynildeb y bardd efallai?) ond rhyw amau ydw i fod nifer o bobl mewn oed yn teimlo'n gryf nad yw plant yn chwarae go iawn bellach.

Oes y blincin gemau cyfrifiadur yw hi bellach – oes ryfedd iawn.

Sonia GT am ei hoffter o chwarae pêl-droed, a 'rhoi dwy gôt neu ddwy garreg ym mhob pen i'r llain ac yna'n dechrau cicio pêl, gan wthio trwy ambell dyfiant o frwyn'.

Sgin i ddim tystiolaeth gadarn, ond credaf fod e.e. cyraedd lefel 17 ar y gêm gyfrifiadur ddiweddar yn bwysicach i blant yr oes hon na sgorio hatric yn erbyn rhai o'ch ffrindiau!

Disgrifia'r gemau a grybwyllwyd yn gynharach mewn modd manwl a, wel, byw. Ia, 'byw' rhwng dau glawr yn unig, gwaetha'r modd.

Cyfareddol a diffuant

Rhyw Ddyddiau Rhyfel Oeddynt yw pennod feraf yr hunangofiant. Cyfareddol a diffuant. Cynildeb i'w ganmol. Ond nid wyf yn synnu chwaith, canys bod yn gynnil yw un o brif gryfderau bardd da.

Enghraifft arall o gynildeb rhagorol: '*Pwy fuasai'n meddwl ynte!*' ar dudalen 193. Cic fach slei, bositif, ym mhen ôl cymdeithasau Cymraeg y tu allan i Gymru?

Cymru Fu

Sonia'r awdur am *Cymru Fu*, llyfr yr oedd yn mwynhau darllen darnau ohono 'drosodd a throsodd' pan yn iau.

Mae gen innau gopi hefyd yn y tŷ 'cw (diolch i haelioni'r *Carnarvonshire Education Committee* yn 1909!)

Sylw personol: chwiliais am y llyfr yma ar www.gwales.com – dim lwc. Tybed ym mha flwyddyn y cafodd y campwaith yma ei argraffu ddiwethaf? Os na chafwyd argraffiad newydd rhywbryd yn ystod yr ugain mlynedd diwethaf (gyda chlawn hynod o ddeniadol – o'r un safon ag e.e. *Y Mabinogi*, Gwyn Thomas, Y Lolfa, 2006) yna mae'n biti garw. Cof cenedl (?)

Y Beibl oedd y llyfr arall 'a fu'n gyson wrth ochr' ei wely 'am flynyddoedd'. Yn wir, ceir ambell i sylw hynod o dreiddgar ynglŷn â ffydd, a'r Pwnc Mawr.

Cymdeithas glos

Diwedd glo hyfryd i bennod ar dudalen 199. Difyr hefyd yw ei sylw ar dud. 49: Annibynwyr v Methodistiaid. Fel mae'r oes (a Chymru) wedi newid!

Hiwmor a ffraethineb

Pa hunangofiant Cymraeg fyddai'n gyflawn heb hiwmor a ffraethineb? Doniol iawn ydyw'r sgetjs ar dudalen. 192: 'Tjips i Dri', hefyd sgwrs rhwng dwy wraig ym Methesda ar dudalen 195! Ceir hefyd ambell i frawddeg ysgubol a chofiadwy gan fawrion eraill e.e. Gwenallt a Bob Owen. Oes, mae angen mymryn o sbeis ar gyfer hunangofiant da. Dwi wedi darllen ambell i hunangofiant yn yr iaith fain yn lled ddiweddar (wna i ddim mo'u henwi) – rhyw hen bethau sych.

Diflewyn ar dafod

Sbeis o fath gwahanol: gall hefyd fod yn ddiflewyn ar dafod e.e. pwysigrwydd disgyblaeth dda yn ein hysgolion, ei farn gref o blaid cadw Ysbyty Blaena ar agor a bod 'Cymru'n werth ei hachub'. Achub? Gair eithafol? Mae ei fyfyrddau ychydig cyn cloi yn haeddu sawl darlleniad. Ond rhaid cyfaddef nad wyf yn siŵr iawn os ydwyf yn hoffi ei ddewis o'r gair *tswnami* ar dudalen 208. Fel Athro Cymraeg, mae'n anochel efallai y bydd yn rhoi 'gwrs Gymraeg' inni. Ond stwffio fo i lawr ein cynn gyddfau? Bws ynteu bys? Pwy ar y ddaear sy'n dweud bws? Cynnwys diflas ar hanner isaf tudalen 151 a'r rhan fwyaf o dudalen 152? Na – dim o gwbl (mae'r peth yn llifo mor naturiol).

Diymhongar

Hunangofiant 'sbŵch arna i', egoistaidd a hunanbwysig? Cyfle i frolio ei weithiau barddonol ac ysgolheigaidd ei hun? Na – mae'r teitl yn dweud y cyfan – ia, diymhongar, dyma yw'r gair dwi'n chwilio amdano.

Y Dyn i Hun (Hywel Gwynfryn), *Fi Dai sy' ma* (Dai Jones, Llanilar) – mae *Bywyd Bach* yn haeddu ffigwr gwerthiant tebyg.

Mae un peth cyn sicred â bod bara mewn torth – ia, 'na chi, pobydd, sef becar oedd ei dad – os y byddwch yn ddigon ffodus i dderbyn y llyfr hwn yn eich hosan Dolig, yna byddwch wedi ei ddarllen o gâs i gâs cyn y flwyddyn newydd!

Darparwyd yr erthygl hon fel rhan o gynllun Cyfrannu ar y cyd rhwng BBC Cymru'r Byd ac Antur Teifi. Am fwy o fanylion sut fedrwrch chi gael £30 am ysgrifennu cysylltwch â Jennifer Jones trwy e-bostio cyswllt@papurbro.org neu drwy ffonio 0845 602 3912

Gellir hefyd gweld yr erthygl hon ar:

<http://www.bbc.co.uk/cymru/adloniant/llyfrau/adolygiadau/brobywyd-bach.shtml>

O SIAMBAR SELWYN

Mae sŵn etholiad yn y tir unwaith eto. Bydd, mi fydd 'na addewidion, beirniadu a thaeru, ac ambell un yn gwirioni cymaint hefo'i blaid fel ei fod o neu hi yn blastar o fathodynau, a'u ceir, a hyd yn oed tŷ ambell un yn bosteri lliwgar. Do, 'dwi wedi gweld ambell gi hefyd yn rhedeg o gwmpas yn gynffon o rhuban i geisio dylanwadu arnoch chi a finna i fotio fel ei feistr!

Dwi'n hynod falch na fu i mi erioed fopio fy mhen â gwleidyddiaeth. Mae'n bur debyg y byddwn i wedi syrthio i'r demtasiwn oni bai i mi gael fy ethol yn Glerc i Gyngor Plwyf (yr adeg honno, Llanddeiniolen), yn 1955, ac i mi wneud addewid ar y pryd na fyddwn i'n ymaelodi ag unrhyw blaid wleidyddol. A, chan i mi fod yn y swydd honno am yn agos i hanner canrif, roedd hi braidd yn hwyr yn y dydd i mi ymaelodi ag unrhyw blaid ar ôl ymddeol. A bod yn onest, doeddwn i ddim yn teimlo'r awydd i wneud hynny chwaith. Ond rwy'n prysuro i ddweud fy mod i wedi gwneud defnydd o fy mhleidlais ar hyd y blynyddoedd, ac fe wna i hynny ar 3 Mai hefyd, os byw ac iach. Bydd, mi fydd y groes yn mynd i'r un blwch, a hynny o barch i fy rhieni.

Yn fy nghartref i, Bryn Alun, y cychwynnwyd mudiad Plaid Cymru ym Methel. Hogyn bach yn chwarae hefo Meccano ac yn pryfocio'r gath oeddwn i, tra roedd fy nhad a mam a rhyw ddynaid o bobol dda Bethel yn trafod pethau dyrys a oedd tu hwnt i'm deall i. Ambell dro fe ddeuai pobol ddarth i'r aelwyd, rhai y dois i wybod pwy oedden nhw yn ddiweddarach. Rhai fel yr Athro Jac Daniel, Ambrose Bebb a J. E. Jones. Hefyd mi fyddai cyfaill agos iawn i'm rhieni yn dod yr holl ffordd o Lanberis ar ei feic - ia, Y Parchedig Ben Owen.

Roedd angen dyn dewr iawn i ddangos ei liw gwyrdd yn Chwarel Llanberis y dyddiau hynny. Ond roedd Nhad yn un o'r ychydig a wnâi hynny. Un arall, wrth gwrs, oedd Perisfab.

Mi fûm i'n canfasio mewn un etholiad, pan oedd R. E. Jones yn sefyll yn erbyn Goronwy Roberts. Mynd o amgylch pentrefi'r ardal i rannu pamffledi ac i osod poster. Roedd Arfon, y pryd hynny, yn un platar o liw coch. Cofiaf fod yn y cyfrif yng Nghaernarfon ac fe ddaeth un boc i mewn a'i gynnwys i gyd i R. E. Fe gofiaf ei eiriau pan ddywedodd yn ei ffordd ddidreidus,

'Dew, roeddwn i'n dechra poeni am eiliad 'mod i'n mynd i fewn.'

Mae pethau wedi newid ers y dyddiau hynny. Etholiad drwy gyfrwng y teledu a gawn ni bellach. Dim mwy o'r hen frwdfrydedd pryd y byddai ymgeiswyr o bob plaid yn cynnal cyfarfodydd yn ysgolion yr ardal. Dyna'r adeg y caem yr heclo a'r dywediadau ffracth.

Dwy waith erioed y bu i mi sefyll etholiad, ac eraill a grefodd

arna i am yr hawl i fy enwebu y troeon hynny. Wnes i erioed ddychmygu y byddwn i'n ennill. Ond ennill wnes i - yr eildro. Ar ôl i mi ymddeol mi fuo 'na rhyw un neu ddau yn ceisio fy mherswadio i fynd yn Gynghorydd, gan ofyn i mi ystyried y peth o ddifri. Doedd dim angen i mi ystyried o gwbwl. Roedd fy ateb yn NA pendant. A phrun bynnag, fyddwn i byth yn sefyll etholiad yn enw yr un blaid. Wela i ddim bod 'na le i wleidyddiaeth o gwbwl ar lefel Llywodraeth Leol, yn enwedig felly ar lefel Cyngor Cymdeithas.

Bydd, mi fydd 'na addo a dadlau a ffraeo yn ystod yr wythnosau nesa 'ma. Byddai'n dda i bob un sy'n dueddol o fopio'i ben hefo gwleidyddiaeth gofio geiriau Oscar Wilde,

'Tydi cwestiynau byth yn wirion - mae atebion weithiau.' Fo ddywedodd hefyd, *'Ni wn i am unrhyw un yn y Tŷ Cyffredin sy'n haeddu cael ei baentio mewn olew, ond ma' 'na beth cythraul ohonyn nhw sy angen eu gwyngalchu.'* Gwir bob gair.

Blodau Racca

(ALWYN AND SARAH JONES)

Ffôn 870605

- Basgedi Planhigion, Blodau Ffres a Silc
- Danfon blodau 7 diwrnod yr wythnos drwy'r fro
- Gwasanaeth Tudalennau Siarad/Talking Pages 118 247
- Planhigion Gardd a Basgedi Crog

RHODD O'R GALON YW BLODAU

Perchnogion Newydd!

yn parhau'r traddodiad gwych

WAVELL'S

Bryn ac Angela Williams

London House, LLANRUG

Ffôn:


(01286) 673574

PEN CIGYDDION Y FRO

Yr ŵyn lleol mwyaf blasus,
Selsig cartref
Cigoedd parod i'w bwyta
Archebion ar gyfer y rhewgist

MYNNWCH Y GORAU
DEWCH ATOM NI!

'Slate of Hand - Stone for Fine Art & Folk Art'



Y mis hwn, bydd dau o safleoedd llechi pwysicaf gogledd Cymru, sef Inigo Jones ym Mhen-y-groes ac Amgueddfa Lechi Cymru, Llanberis, yn cynnal lansiad llyfr a chyflwyniad a fydd yn dangos sut y mae llechi wedi ysbrydoli artistiaid ar draws y byd, ac yn edrych ar hanes ardaloedd chwarelyddol ar y naill ochr a'r llall i Fôr Iwerydd.

Ysgrifennwyd *Slate of Hand* gan yr awduron Americanaidd, Judy a Ted Buswick, ac mae nid yn unig yn dangos sut y mae artistiaid o fri, megis Andy Goldsworthy, Richard Long a Philip King wedi defnyddio llechfaen o Gymru, ond hefyd sut y mae artistiaid o Gymru wedi defnyddio'r cyfrwng, gan roi sylw i waith Bill Rice, Howard Bowcott, Ivor Richards, Sara Humphreys a Bill Swann.

'Mae *Slate of Hand* yn rhoi lle amlwg iawn i artistiaid o Gymru,' eglurodd Judy Buswick. 'I gychwyn mae'n bwrw golwg dros y gelfyddyd werin a grewyd gan chwarelwyr a chrefftwyr ac wedyn mae'n canolbwyntio ar y celfyddydau cain. Mae'n seiliedig ar gyfweiliadau gydag artistiaid o Gymru, Lloegr, yr Alban, yr Unol Daleithiau a Chanada.

'Mae'r cerflunydd, Ivor Richards, yn defnyddio gwead llechfaen wedi'i hollti neu'n caboli'r llechfaen nes ei fod yn sgleiniog; mae Howard Bowcott yn pentyrru llechfeini'n ffurfiau enfawr tra bo W. J. 'Bill' Rice yn troi creiddiau llechfaen yn ffolau, gan dynnu sylw at wead

a lliwiau'r garreg.

'Rydym yn amau bod pobl yn meddwl nad oes llawer iawn i'w drafod wrth sôn am lechfaen ar wahân i lechi toi, ond mae'r gwaith celf a ganfuwyd gennym yn amrywio o haenau tenau i weithiau anferth ac yn cynnwys ystod eang o liwiau a gweadau, ac mae'r gelfyddyd yn cael ei harddangos a'i defnyddio mewn amgueddfeydd ac orielau yn ogystal â chartrefi a mannau awyr agored.'

Meddai Julie Williams, Swyddog Marchnata Amgueddfa Lechi Cymru, Llanberis, 'Mae'r llyfr hwn yn creu dolen gyswllt rhwng

cymunedau chwarelyddol ar draws y byd. Ar 19 Mai byddwn yn dathlu'r "gefeillio" gydag Amgueddfa Slate Valley yn Granville, Efrog Newydd, ac ar 3 Ebrill byddwn yn croesawu band o ardal Pennsylvania, sef y 'Bangor area Slaters Marching Band' - ardal chwarelyddol arall yn UDA - gan ddangos bod llechi yn cysylltu cymunedau, beth bynnag fo'r cyfnod a'r pellter.'

Bydd y sgwrs a'r sesiwn llofnodi gyntaf yng Nghanolfan Lechi Inigo Jones ym Mhen-y-groes ar 23 Mawrth am 11.30am a bydd yr ail yn Amgueddfa Lechi Cymru yn Llanberis ar 28 Mawrth am 11.00a.m. Mae croeso i bawb ond a fydddech cystal â chysylltu â'r ganolfan dan sylw ymlaen llaw i wneud yn siŵr bod lle ar eich cyfer.

Cynigir mynediad am ddim i safleoedd Amgueddfa Cymru yn sgil cefnogaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Amgueddfa Lechi Cymru

Ar Ebrill 3, rhwng 10 y bore a hanner dydd, bydd Band 'Slaters' Ysgolion Uwchradd o ardal Bangor, Pennsylvania yn yr UDA, yn dod â'u hadloniant unigryw i'r Amgueddfa. Dyma gyfle unigryw i weld y band - tua 150 ohonynt - o'r ardaloedd chwareli llechi yn yr UDA yn perfformio yn yr Amgueddfa.

Gosodwr Teils

Arbenigwr mewn walïau a llorïau

Gwaith bach neu fawr
Gwaith da bob amser

Ffoniwch Lloyd ar
01286 830 805



Colofn y Plant

Clwtyn Criw Triw

Annwyl Blantos, Dyma ble rydw i, Sbonach Mawr, o bawb, yn snwff-snwff-snwffian crio, oherwydd W! W! W! ow! ow! blantos, dydw i ddim wedi glywed gair cyfan (neu hyd yn oed chwarter un), oddi wrth Sbonach Bach! Y 'twribidirw' bach iddo fo. Gobeithio ei fod o'n mwynhau ei wylia yn y trofannau, ble bynnag holl fwg a chymylau, mae fan'no ynte!




Sawl sgwâr allwch chwi eu canfod yn nhŷ Sbonach Bach?

A



Yn (A) beth a welwch ar y silff? Ia! tri blwch. Rhaid cofio cyfrif gwaelod a chaead pob blwch! Chwec sgwâr? Ia! Da iawn chi! Ew! mi rydach chi'n glyfar tu hwnt! Ond mae 'na dri blwch ar

y silff, felly $6 \times 3 = 18$. Ia, un deg wyth sgwâr.



B

Beth am (B)?

Blwch? Ia! Un hefo pedair ochr! Cofiwch am ei waelod, a'i dop. Ia! Sawl sgwâr felly? Ia, chwec. A beth am yr amlen? O! ia, un hefo dwy ochr iddi. Felly dau sgwâr i gyd. Felly, iocoldi-bidiracs, wyth sgwâr i gyd!

C



Hm! hwlcihwari-pry-yn-llyncu-ei boer, beth am (C)? A oes sgwariau'n cuddio ynddo fo?

Na! does 'na' run!

Pam na wnewch chi y mis hwn, blantos, fynd ati i wneud lluniau hefo sgwariau, cylchau a ffurfiau sy'n darlunio'r gwanwyn neu'r Pasg, a'u danfon at olygyddion Eco'r Wyddfa.

Hwyl am y tro

oddi wrth

SBONACH MAWR

Tudalen PASG Rygarug

Pasg hapus i ddarllenwyr Eco'r Wyddfa gan bawb o aelodau Rygarug - mwynhewch eich wyau!

Dewch i weld sioe lwyfan Rygarug! Bydd y sioe 'Gwyrdd' yn Theatr Gwynedd ar nos Fercher a nos Iau, 4ydd a 5ed o Ebrill am 7.30 y.h.

Mae tocynnau ar gael yn Theatr Gwynedd, Bangor ar (01248) 351708! Croeso cynnes i bawb, felly dewch yn llw!

Wyau Pasg - y deg uchaf!

(sydd wedi eu profi gan bob un o'r dosbarth Newyddiaduraeth!!!)

1. Galaxy Promises
2. Cadbury Dream
3. Thornton's (unrhyw beth!)
4. Cream Egg
5. Buttons
6. Cadbury Melts
7. Dairy Milk Caramel
8. Milky Bar
9. Mars Delight
10. Smarties

gan FFION WYN ROBERTS

Chwilair y Pasg

A S F D G M J H J D
Y B H S W I A G W A
A U F N A L Z G S I
R T D T T K G E R R
G T S R G Y A M E Y
N O T O U B L A T M
M N A H U A A E L I
A S S T W R X R A L
R L E M A R Y C M K
S A D G G E I N I M

Geiriau:

Dairy Milk, Galaxy, Maltesers, Thorntons, Cream Egg, Mini

Egg, Buttons, Milkybar, Caramel, Mars

gan GWEN THOMAS

Cyfweliad gyda un o Brif gymeriadau'r sioe 'Gwyrdd' gan Gwenno Gibbard

Enw'r actor: Iestyn Owen

Enw'r Cymeriad: Vince Prydderch

Chdi sydd wedi cael dy ddewis I chwarae rhan Vince Prydderch yn y sioe, sut oeddat ti'n teimlo pan gefaist y rhan?

Roeddwn yn falch iawn. Dwi wedi bod mewn llawer o sioeau o'r blaen ond hwn yw'r tro cyntaf i mi gael rhan ble dwi'n gorfod canu!

Sut fath o gymeriad ydi Vince? Mae Vince yn gymeriad sydd yn parchu ei wraig. Fuasai o byth yn ei hateb yn ôl, mae'n gwneud popeth i'w wraig.

Sut hwyl wyt ti'n ei gael yn dysgu'r llinellau?

Ymm... araf braidd!! Ond, yn yr holl sioeau dwi wedi eu gwneud, dwi byth yn dysgu'r geiriau tan y munud olaf! Ha Ha!

Wyt ti'n edrych ymlaen i berfformio ar lwyfan Theatr Gwynedd?

Ydw!!! Yr holl sioeau dwi wedi ei wneud, maent wedi bod mewn theatrau bach, neuadd bentref neu gapel, felly mewn ffordd mae hyn yn brofiad newydd i mi!

CORNEL BWRLWM ERYRI

Daniel a'r dwmpelen a Defi John.



Yn ardal Aberllefenni mae hen chwarel Cwmodyn. Erstalwm, pan oedd dynion yn cynhyrchu llechi yn y chwarel, roedd hwyl fawr i'w gael yng nghwmni rhai cymeriadau direidus.

Un o'r cymeriadau rheiny oedd Defi John. Hogyn ifanc oedd Defi, ac un diwrnod mi aeth o dros ben llestri drwy gael hwyl am ben chwarelwr hyn o'r enw Daniel Edwards.


Roedd Daniel wedi codi'n hwyr y bore hwnnw, ac yn lle cydio yn ei focs brechdan wrth ddod ar frys o'r tŷ, roedd o wedi cydio mewn twmpelen - math o bwdin siwet llawn cyrens - yr oedd Megan ei ferch wedi ei gwneud y bore hwnnw.

Wedi deall hyn, be' wnaeth Defi John ond rhoi ffiws mewn capsen a'u gwthio i ganol y dwmpelen, a thanio'r ffiws nes bod cyrens a resins a thameidiau o bwdin yn tasgu i bob cyfeiriad!

Wel mi roedd Daniel Edwards wedi gwylltio! Ac am fod Defi John wedi gwneud drwg, mi gafodd o'i gosbi, o do. Ar ôl cinio yn y caban, mi ddewiswyd pedwar chwarelwr cryf i gydio yn yr hen Ddefi gerfydd ei freichiau a'i goesau, a Daniel Edwards ei hun yn cael rhoi chwip din ysgafn iddo fo efo rhaw.

Yn syth bin ar ôl y gosb roedd Daniel a Defi yn ffrindiau unwaith eto - yn wir, ymhen tipyn daeth Defi yn jarman (helpiwr) i Daniel yn y chwarel. Sbel yn ddiweddarach mi briododd Defi John a Megan, ac mi ofalodd hi nad aeth Defi na Daniel â thwmpelen i'r gwaith byth wedyn.

CROESAIR



I lawr:

1. Beth gydiodd Daniel ynddi wrth ddod o'r tŷ?
2. Lle roedd y chwarelwyr yn bwyta eu cinio?
3. Beth oedd enw'r chwarelwr?
4. Beth oedd enw'r hen chwarelwr?
5. Beth wthiodd Defi i'r dwmpelen?

Ar draws:

3. Beth oedd enw merch Daniel?
6. Aeth Defi i weithio fel _____ i Daniel.
8. Beth oedd enw'r hogyn direidus?

Cyn dechrau cosb, yr arferiad yn chwarel Cwmodyn oedd i bob un o'r chwarelwyr dynnu ei gap yn seremonïol.



Dyma ran o rigwm yr oedd y chwarelwyr yn ei llafarganu wrth ddysgu gwers i bobl ddireidus fel Defi John -

*Hidl - di - hers, gofi di'r wers,
Fforti cwaifers, chwibiana.*

Os nad oedd y drwgweithredwr yn chwibannu ar ddiwedd y rhigwm, roedd gan yr un oedd wedi cael cam, ac yn cydio yn y rhaw, hawl i roi chwip din ychydig yn galeiach iddo.

Wyddost ti ragor am arferion dysgu gwers o'th ardal di? Os gwyddost ti, gad i mi wybod!

Elin Alaw, Swyddog Bwrlwm Eryri
01766 772 532 / elin.alaw@eryri-npa.gov.uk

Mae Bwrlwm Eryri yn hybu treftadaeth ddwyliannol ac fe'i cefnogr gan:



CYNGOR CYMUNED LLANBERIS

(Parhad o dudalen 9)

siopau, ac at sbwriel a blerwch o gwmpas Siop V12 yn Stryd y Ffynnon.

Cynllunio

Cyngor Gwynedd:

• CO6A/0906/15/LL: Newid bychan i gais am godi tŷ – 9 Llain Wen Uchaf, Llanberis. Cafwyd eglurhad fod y cais gwreiddiol â disgrifiad anghywir. Roedd yn cyfeirio at 'codi un tŷ / erection of single storey house' yn hytrach na 'codi tŷ / erection of single dwelling'. Cafwyd cadarnhad hefyd oddi wrth CG eu bod yn ymwybodol o'r Llwybr Cyhoeddus a oedd yn mynd heibio ymyl y safle, ac y byddai'r hawliau tramwy yn cael eu diogelu.

Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri (APCE):

• NP3/15/181A: Gosod mast alwminiwm yn lle'r mast o'r fath rhoi signal ar ymyl trac gyda pholyn telegraff pren, Ochr y cledrau, Gorsaf Clogwyn, Rheilffordd yr Wyddfa. Dim gwrthwynebiad.

Wedi eu Caniatáu:

CG:

• C07A/0059/15/LL: Estyniad – 23 Maes Padarn, Llanberis.
• C07A/0037/15/LL: Codi Ffens a Giatiau Diogelwch – Y Glyn, Llanberis.

APCE:

• NP3/15/10A: Estyniad ar gyfer llety warden, storfa offer/ystafell sychu ar wahân, a trwsio wal derfyn Bens, Nantperis

Cymorthdaliadau

Trafodwyd ceisiadau a gafwyd am arian o dan Gynllun Cronfa Cymorthdaliadau Bychan y Cyngor, a phenderfynwyd cynnig cymorth i'r canlynol.

Eco'r Wyddfa; Cymdeithas Lenyddol Undebol Llanberis; Cylch Meithrin Llanberis a Nantperis; Clwb Pêl-droed Llanberis Colts FC; Bobath – Canolfan Therapi Plant Cymru; Eglwys Sant Peris, Nantperis; Eglwys Sant Padarn, Llanberis; Y Samariaid; Guides, Brownies a Rainbows, Llanberis; Ras yr Wyddfa (Ras y Plant); NW Assoc for Spina Bifida and Hydrocephalus; Eisteddfod Genedlaethol Cymru – Yr Wyddgrug; Eisteddfod Gerddorol Ryngwladol Llangollen; Cwmni Theatr Bara Caws; Cwmni'r Frân Wen, Porthaethwy; Cronfa R. H. Owen; Kidney Wales Foundation; Cymdeithas Alzheimer's; Clwb Rygbi Caernarfon; Ambiwllans Awyr Cymru; Cymdeithas y Byddar Gogledd Cymru; Dawns i Bawb, Caernarfon; Tŷ Gobaith, Croesoswallt a Chonwy; Shelter Cymru; Gofal Canser Marie Curie; Cyngor Tref Caernarfon – Dydd y Cyn Filwyr.

Gohebiaeth

• Caergylchu – llythyr oddi wrth CG yn ein hysbysu fod Canolfan Ailgylchu newydd wedi ei hagor yng Nghaernarfon. Mynegwyd

balchder gan amryw fod y Ganolfan ar agor, a fydd yn derbyn pob math o drugareddau a sbwriel nad oedd yn bosib ei ailgylchu cyn hyn. Mawr hyderir y bydd trigolion y plwyf yn ei defnyddio'n llawn ac y gwelwn lai o sbwriel yn yr ardal.

• Llundio Dyfodol Eryri – llythyr oddi wrth APCE yn nodi fod cyfle i drafod y Cynllun Rheoli a'r Cynllun Datblygu Lleol mewn nifer o ganolfannau yn y Parc. Bydd cyfle yn Nantperis i drafod y mater rhwng 12.00 a 20.00 yn y Ganolfan Wardeniaid ddydd Sadwrn, y 24ain o Fawrth.

• Copi o lythyr oddi wrth FO at Gyngor Gwynedd yn atgoffa na baentiwyd llinellau melyn hyd yma ar Ffordd Tŷ Du er yr addewid a gafwyd.

• Dadgrimaleiddio Gorfodaeth Parcio – llythyr oddi wrth CG yn atgoffa y daw'r newid i rym ar y laf o Ebrill eleni. O'r dyddiad hwnnw y Cyngor Sirol fydd yn rheoli parcio. Cafwyd enw a rhif ffon y Rheolwr Parcio – Colin Jones, Caernarfon 679753 – ar gyfer cysylltu ynglŷn â pharcio peryglus ac anghyfreithlon.

• Senedd '04 – dau lythyr yn nodi fod cynhadledd i'w chynnal yn mis Mehefin i gynrychiolwyr Cynghorau yn Machynlleth ar Sadwrn yr 16eg, ac yn ail na chafwyd llawer o gydweithrediad oddi wrth Un Llais Cymru ynglŷn â datblygu Senedd '04.

• Canolfan Ymwelwyr Cynulliad Cenedlaethol Cymru – llythyr yn nodi fod y Ganolfan yma ar agor ym Mae Colwyn, ac fod croeso i rai sy'n dymuno dysgu mwy am y Cynulliad a Llywodraeth Cymru alw heibio.

• Cyfarfod nesaf Pwyllgor Rhanbarth Gogledd Cymru, y Cynulliad Cenedlaethol yn Stiwdio Barcud Derwen, dydd Gwener, 23 Mawrth, rhwng 10.00 a 12.30. Iechyd Meddwl fydd yn cael sylw.

• Un Llais Cymru – Gwahoddiad i anfon cynrychiolydd neu ddau i Arddwest Palas Buckingham. Neb â diddordeb.

• Swyddfa Archwiliwr Cymru – llythyr yn gofyn a fydd y Cyngor yn fodlon derbyn gwasanaeth cwmni UHY Hacker Young, Caer, ar gyfer y flwyddyn i ddod fel Archwiliwr Allanol.

• Radio Ysbyty Gwynedd – Holi am gymorth ariannol. Rhy hwyr.

• Derbyn Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn yng Nghymru.

Unrhyw Fater Arall

• Penderfynwyd fod angen cytundebau gwaith ar gyfer y Clerc, ac arolwg diogelwch ar gyfer Angorfa. Bydd hyn, a dyfodol Angorfa, ar raglen cyfarfod mis Ebrill.

• Adroddwyd fod trafferthion wedi bod wrth gloddio yn y Fynwent, ac nad oedd yn bosib claddu mewn un llecyn.

Cyfarfod Nesaf

Bydd y cyfarfod nesaf ar nos Iau y 19eg o Ebrill, 2007 am 7 yr hwyr.

BETHEL

Geraint Elis, Cilgeran. Ffôn: (01248) 670726

CLWB BRO BETHEL. Pleser oedd cael ymgynnull yn yr ysgol i ddathlu Gŵyl Ddewi yng nghwmni'r plant, ar wahoddiad y Pennaeth. Croesawyd nifer dda o aelodau ynghyd gan y Llywydd, Goronwy Jones, ac i gychwyn cafwyd cyflwyniadau gan Adran y Babanod, gan gynnwys hanes Dewi Sant, Dawnsio Gwerin a chyd-ganu cadwyn o hwiangerddi traddodiadol. Yn ystod yr egwyl, ac yn gwbl annisgwyl, cafwyd powlen o gawl cennin wedi ei baratoi gan yr athrawon a'r plant, ac yna paned o de a theisen. Roedd yr Adran Iau hefyd wedi paratoi cyflwyniadau cyffelyb, gan ychwanegu eitem offerynnol. Roedd y cwbl yn raenus iawn a'r plant i gyd wedi eu gwisgo mewn dillad Cymreig. Diolchwyd yn gynnes am gyngerdd safonol iawn gan y Prifardd Selwyn Griffith ac yna cyflwynwyd rhodd ariannol i'r ysgol.

Gwerthfawrogi'r fawr iawn garedigrwydd blynyddol yr ysgol yn ein diddanu mor gelfydd, gan gyfuno yr hen a'r newydd mewn cyfarfod oedd yn seciwlar a chrefyddol ar ddiwrnod ein Nawdd Sant.

CYMDEITHAS LENYDDOL

Croesawyd yr aelodau ynghyd i gyfarfod mis Mawrth gan y Llywydd, Ieuan Williams. Roedd nifer dda yn bresennol yng nghwmni un o'r aelodau, sef J. Elwyn Hughes. Sgwrs ar fywyd Caradog Prichard oedd ei destun, a chyd-a chymorth taflunydd, cafwyd sgwrs hynod o ddiddorol yn olrhain hanes y Bardd, y Llenor a'r Newyddiadurwr. Dangoswyd nifer o luniau o Caradog, ardal ei fagwraeth ym Methesda, a luniau'n ymwneud â'i yrfa a'i lwyddiannau yn yr Eisteddfod Genedlaethol. Roedd pawb wedi mwynhau'r noson yn fawr a diolchwyd yn gynnes iawn i Elwyn gan Jenkin Griffiths.

I gloi gweithgareddau'r Gymdeithas am eleni y swper pen tymor fydd nesaf, a hynny ar nos Fawrth, 17 Ebrill. Pawb sydd am ymuno yn y Swper i ddychwelyd papur dewis o fwyd ynghyd â'r arian (£11) i Nora Parry neu Sheila Roberts erbyn 11 Ebrill.

DIOLCH. Dymuna Dafydd Parry, Hafod Elen, ddiolch yn fawr i'w deulu, ffrindiau, cymdogion a gweinyddwyr Ysbyty Eryri am y llu cardiau a'r caredigrwydd a dderbyniodd tra bu yn yr ysbyty.

CAPEL BETHEL. Cynhaliwyd gwasanaeth Sul y Mamau ar fore'r 18fed o Fawrth dan ofal plant yr Ysgol Sul.

Cafwyd oedfa hynod o raenus a bendithiol a chafodd pob plentyn dusw o flodau ynghyd â cherdyn, a baratowyd ganddynt yn yr Ysgol Sul i ddiolch i'w mamau am yr amrywiol bethau a gawsant drwy'r flwyddyn.

NEUADD GOFFA. Enillwyr Clwb 200 Rhagfyr 2006 oedd £40: (49) Carys Wyn Jones, 45 Bro Eglwys; £20: (39) Jennifer Roberts, Llys Menai, Saron; £10: (161) Andy Bell, Tŷ Newydd, Saron.

Enillwyr mis Ionawr oedd: £40: (46) Einir Pritchard, Cartref, Saron; £20: (139) Gwynfor Morris, Treflys; £10: (146) Miss P. A. Williams, Cilgwyn.

Diolch i'r rhai sy'n cefnogi'r Neuadd Goffa yn ffyddlon.

MERCHED Y WAWR. Dathlwyd Gŵyl Ddewi eleni yn 'Taro Deg' ym Mhwlheli a chawsom groeso a gwledd arbennig iawn. Ein gŵr gwadd oedd y Prifardd a'r Archdderwydd Selwyn Iolen, a bu i Anne Elis, y Llywydd, estyn croeso cynnes iddo, ynghyd â Myra, ei wraig. Cawsom sgwrs llawn hiwmor – yn sicr roedd y plant yr oedd wedi eu dysgu ar hyd y blynyddoedd wedi ei ysgogi i ysgrifennu llawer o'r cerddi poblogaidd sydd wedi eu cyhoeddi. Clywsom hanesion am ei blentyndod ym Methel a llawer tro trwstan, ac yna cloi gyda'r uchafbwynt oedd yn arwain at dderbyn y swydd o Archdderwydd Cymru. Noddwyd y noson gan Academi.

Llongyfarchwyd Manon Elwyn ar ei llwyddiant mewn dwy gystadleuaeth yn yr Eisteddfod Sir Uwchradd yr Urdd, a dymunwyd yn dda i bawb yn yr Eisteddfod Sir Gynradd ym Mangor.

Da oedd deall am ddyweddïad Huw Llywelyn â Cathrin Alwen o Fae Colwyn, a hefyd Rhodri gyda Catrin o Gaernarfon.

Bu rhai o'r aelodau yn cymryd rhan yn Noson Chwaraeon y Rhanbarth yn Neuadd Bethel. Ar nos Wener, 18 Mai, cynhelir noson Arddangosfa'r Canghennau o Gelf a Chrefft yn Nhregarth. Mae tocynnau ar gael gan Rita am £2. Derbyniwyd llythyr gan BOBATH yn diolch am ein cyfraniad o £52 i'r elusen. Enillydd 'Dewi Dyddiad' o'r dyddiadur yw Eryl Roberts. Diolch yn fawr i bawb wnaeth ein cefnogi. Enillwyr y raffl ar y noson oedd Myra, Margaret Druce, Eryl, Eirlys Williams a Glenys.

Aelod o 'Gig Rosé Cymru' fydd y siaradwr y mis nesaf. SYLWCH Y DYDDIAD – nos Fercher, 4 Ebrill, yn yr Ysgol Gynradd am 7.30 o'r gloch.

LLEUFER O. ac N. PRITCHARD CANOLFAN CARPEDI

WAUNFAWR

Ffôn/Ffacs:
(01286) 650291

Dewis eang o Welyau a 3P/Suites.

Llenni Venetian a Llenni Roler.

5,000 llathen sgwâr o garpedi mewn stoc – allwch chi fforddio prynu o batrymau?

Ar Agor


9-7 pm

9-5 pm Sadwrn

Ar Gau

Sul a Mercher

**GLANHAU CARPEDI
GYDA STIMVAK**



Tafarn Pen Y Bont, Llanrug, wedi creu lloches i'w cwsmeriaid.

Dim Ysmygu

Mae ychydig dros chwarter o oedolion Cymru – sef 26 y cant – yn ysmygu. Ond mae 27 y cant o oedolion Cymru yn gynysmygwyr! Daw'r Rheoliadau Mangreoedd Di-fwg (Cymru) 2007 i rym am 6.00 a.m. ar 2 Ebrill 2007. Nod y gyfraith yn gwahardd ysmygu mewn mannau cyhoeddus yw diogelu'r gweithwyr a'r cyhoedd rhag effeithiau niweidiol mwg ail-law.

Mae'r gyfraith yn creu tair trosedd benodol:

- Methu ag arddangos arwyddion dim 'smygu mewn safleoedd sy'n dod o dan y gyfraith;
- Ysmygu mewn man di-fwg;
- Methu ag atal ysmygu mewn man di-fwg.

Mae deddfwriaeth debyg eisoes wedi'i rhoi ar waith yn yr Alban a bwriedir iddi ddod i rym yn Lloegr a Gogledd Iwerddon yn 2007.

Prin iawn yw'r eithriadau a gynigir o dan y gwaharddiad ar

ysmygu. Bydd y gyfraith newydd yn effeithio ar y rhan fwyaf o fannau cyhoeddus, gan gynnwys tai bwyta, bariau, siopau, sinemâu, canolfannau siopa, canolfannau hamdden, gweithleoedd caeedig eraill a thrafnidiaeth gyhoeddus.

Bu straeon ar y newyddion dros yr wythnosau diwethaf am nifer helaeth o weithwyr tafarndai yn yr Alban yn colli eu swyddi oherwydd y dirywiad sylweddol yn y nifer o fynychwyr i dafarndai.

Mae Wendy Jones, rheolwraig tafarn Pen Bont Llanrug, wedi rhaglweid y broblem hon ac wedi paratoi lloches ar gyfer ei chwsmeriaid sy'n dymuno ysmygu. Mae'r lloches yn cynnwys byrddau, cadeiriau a gwres ar gyfer y nosweithiau oer.

A fydd cwmnïau eraill bro'r Eco yn dilyn enghraifft Tafarn Pen Bont tybed ynteu a fydd ysmygwyr y fro yn manteisio ar y cyfle hwn i roi'r gorau i ysmygu yn gyfan gwbwl?



Hywel Williams
Aelod Seneddol



Alun Ffred Jones
Aelod Cynulliad

Etholaeth Caernarfon

CYMORTHFEYDD

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'r A.S. neu'r A.C. mewn cymhorthfa, ffoniwch **01286 672076** i wneud apwyntiad

neu

ysgrifennwch atynt:

Swyddfa Etholaeth

8, Stryd y Castell, Caernarfon LL55 1SE

neu

e-bost: williamsgw@parliament.uk

Pryd i Bawb
Bwffe blasus o safon
at bob achlysur

Priodas

Parti

Te Angladdau

Cinio Busnes

CERID MACKINNON

Plas Tirion, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd LL55 4PY

(01286) 673190



Am Offer Tŷ a Gardd...

FORMAG

41A STRYD FAWR, LLANBERIS

Ffôn: (01286) 872501



Problem gyda'ch cyfrifiadur?

Am wasanaeth cyfeillgar i ddatrys a gwella eich cyfrifiadur cysylltwch â **Gomer Roberts**

Ffôn : **01286 870462**

Symudol : **07962 712368**

Cymorth a hyfforddiant amyneddgar i bob oedran er mwyn i chi fedru mwynhau defnyddio eich cyfrifiadur!

BWS BACH AR LOG

Bws 22 sedd ar gael ar gyfer pob math o logi preifat – nosweithiau allan, partïon, tripiâu ac ati.

Gwasanaeth personol a thelerau rhesymol gan

(01248) 361044



D. P. OWENS RHIWLAS

Caffi Caban

ar Agor

9 y bore tan 4 y pñawn - 7 diwrnod yr wythnos

Cwmni cydweithredol di-elw yw Caban Cyf. wedi ei sefydlu i hwyluso datblygiad economaidd cefn gwlad.

Nod Caban Cyf. yw rheoli gweithrediad cynaliadwy sydd yn cynhyrchu incwm drwy ei brif weithgareddau refferniw (Caffi Trwyddedig, Ystafell Cynhadledd a Gwasanaeth Argraffu a Llungopio) ac ar yr un pryd i gefnogi busnes lleol (Unedau Busnes Caban) er mwyn creu cyfleoedd gwaith.

Caban, Yr Hen Ysgol, Brynrefail

www.caban-cyf.org

caban@caban-cyf.org

01286 685 500 (caffi) 01286 685 462 (swyddfa)

Caban
Cyf

Portread o Siân Wyn Gibson

Merch Owie ac Eirlys Gibson o Ddeiniolen yw Siân, ac mae ganddi ddau frawd, sef Dewi ac Emyr, yr actiwr, a welir efo'i fan lefrith ar y rhaglen deledu Rownd a Rownd, ond yn ôl Siân, mae Dewi hefyd yn berchen llais canmoladwy iawn.

Bellach mae Siân yn byw yn Llanwnda yn briod ag Alan, ac yn fam i Catrin Alaw a Siôn Wyn – Catrin yn gerddorol iawn a Siôn, er ond yn 7 oed, yn chwarae'r cymeriad 'Deio', yr hogyn bach swil, hefyd yn Rownd a Rownd.

Heb os, nid yn unig fod aelwyd 'Y Bryn' yn aelwyd hynod brysur (mae Alan yntau yn hyfforddwr tîm pêldroed), ond mae yn aelwyd hynod dalentog yn ogystal.

Y tro cyntaf i mi glywed Siân yn canu oedd gyda chriw ohonom yn diddori'r ymwelwyr yng ngwesty'r Victoria, Llanberis, flynyddoedd yn ôl. Roedd hi ac Annette, ei chyfeilyddes, os cofiaf yn iawn, yn ddisgyblion yn Ysgol Brynrefail ar y pryd.

0 holi beth oedd tarddiad y cyfenw Gibson, cefais ar ddeall yn ei ddull hwyliog arferol gan Owie, ei thad, mai o'r Alban y daeth ei daid i weithio yn Llangefni.

Nid yw'n syndod i Siân ddod i amlygrwydd cenedlaethol fel cantores gan fod teuluoedd ei rhieni, o'r ddwy ochr, wedi amlygu eu hunain yn gerddorol ac wedi perfformio fel unawdwyr.

Ers y tro cyntaf i mi glywed Siân rwyf wedi fy swyno gan ei llais unigryw a chliir, a phob amser y cyflwyno mor ddidrafferth ond, fel y dywed y broliant i'w C D ddiweddaraf, 'Mae'r rhwyddineb hwnnw'n cuddio disgyblaeth gadarn a greddf gerddorol sicr'.

Yn ôl cyfaddefiad Siân bu'n canu erioed, yn wir 'canu yn y crud fel tac', yn ôl Eirlys ei mam. Mae'n barod iawn i gydnabod parodrwydd Megan Roberts, pan oedd yn athrawes yn Ysgol Gwaun Gynfi, i feithrin ei diddordeb mewn canu ac am roi sawl cyfle iddi hyrwyddo ei dawn. Yna i Ysgol Brynrefail ac athro arall, Gwyndaf Parry, yn fwy na pharod i'w chefnogi. Tra yno, wrth gwrs, y ffurfiwyd y grŵp 'Gwlith', 5 o ferched, dan hyfforddiant Carys Jones.

Yn naturiol roedd Siân yn cystadlu mewn Eisteddfodau pan yn ieuanc ac yn cael cryn llwyddiant. Yn y cyfnod hwnnw roedd hi a'i ffrind, Rhian Owen, Llanberis bryd hynny – cantores arall sydd'n meddu llais hynod ganmoladwy – yn canu deuawdau, a gwn i'w perfformiad mewn cyngerdd yn Ysgol Brynrefail y llynedd fod yn destun canmoliaeth y gynulleidfa



am ddyddiau wedyn.

Nid syndod felly i Siân Wyn benderfynu dilyn gyrfa gerddorol broffesiynol.

Cynigiwyd ysgoloriaeth iddi i fynd i'r 'Trinity College of Music' yn Llundain. Bu'n llwyddiannus yn y cyfweiliad, ond yn sgil camgymeriad gweinyddol, nid oedd yr awdurdodau yn gallu gwarantu llety iddo aros am gyfnod, ac oherwydd yr ansicrwydd hwn bu raid i Siân wrthod yr ysgoloriaeth a dod adref, ble bu am flyyddyn yn dal i freuddwydio a dyheu am yrfa fel cantores.

Eto cynigiwyd llu o ysgoloriaethau iddi a derbyniodd wahoddiad i fynd i Goleg Cerdd Manceinion, ble bu cynifer o Gymry ifanc dros y blynyddoedd yn elwa o fodolaeth a chyfleusterau dihafal y Coleg. Yna daeth o dan hyfforddiant gŵr y mae Siân yn eithriadol o ddyledus iddo, sef John Cameron, y tiwtor a fu'n hyfforddi ar berfformio a hefyd datblygu'r grefft hynod bwysig o gyflwyno cân.

Yn ystod ei chwe blynedd ym Manceinion nid syndod yw deall iddi fwynhau, er gwaethaf llafur caled, ymdrin ag ymarfer â holl ofynion byd yr Opera, yr Oratorio a'r Lied. Gyda chryn barodrwydd y mae Siân yn datgan ei dyled i wr arall, sef y cerddor adnabyddus, Brian Hughes.

Cafodd gyfnod o deimlo'n hynod anfodlon yn safon ei chanu, yn hunan-feirniadol nad oedd yn dangos digon o deimlad yn ei pherfformiadau, ond wedi sawl sesiwn gyda Brian Hughes, nid yn unig fe enillodd ei hyder yn ôl, daeth hithau yn sgil hynny, yn fwy na bodlon gyda safon ei chanu.

Wedi'r blynyddoedd cofiadwy a bendithiol yng Ngholeg Cerdd Manceinion, ymunodd Siân â Chwmni 'Opera North' yn Leeds,

fel aelod o'r corws yn perfformio operâu. Roedd hwn yn brofiad dymunol ond, wedi tair blynedd, cafodd ei derbyn fel aelod o gwmni enwog D'oyly Carte yn Birmingham yn cyflwyno gwaith Gilbert & Sullivan a thrafeilio i bob rhan o'r wlad.

Yn wir, arferid cyflwyno wyth perfformiad bob wythnos dros gyfnod hir, a hynny yn naturiol yn golygu trafeilio ar draws y wlad i fannau fel Plymouth, Caeredin (hedfan yno i arbed oriau ar y ffordd), Hull a Llundain, i nodi ond rhai dinasoedd a threfi y perfformiwyd ynddynt. Er hyn i gyd teimlai Siân fod y cyfan wedi bod yn brofiad bythgofiadwy a hefyd, a defnyddio ei disgrifiad hi, 'yn llesol i greu stamina'!

Tra yn aelod o gwmni D'oyly Carte roedd hi hefyd, yn ogystal â chanu yn y corws, yn unawdydd ac fe berfformiodd ran 'Kate' yn *Pirates of Penzance* a 'Venus' yn *Orpheus of the Underworld*. Afraid dweud iddi gael gwir fwynhad yn cyflwyno'r rhannau hyn a hefyd 'Orflosky' yn *Die Fledermaus*.

Ym myd yr oratorio cymerodd ran yr Angel yn *Dream of Gerontius*, a *Gloria* gan Vivaldi, heb anghofio, wrth reswm, y *Messiah*, gan ddwyn i gof mae'n siŵr, gyflwyno'r unawd 'Come on to him' pan yn ferch fach naw oed yn Ysgol Gwaun Gynfi flynyddoedd ynghynt.

Wedi'r cyfnod gyda'r D'oyly Carte aeth Siân yn ôl i'r 'Opera North' yn Leeds. Ond cyn ymadael â'r D'oyly Carte, roedd Siân ac Alan wedi perfformio deuawd hynod hynod bwysig – roedd y ddau wedi priodi!

Yn y cyfnod hwn bu i Alan, ei gŵr, oedd mor gefnogol iddi, drafeilio yn ei gar, ar derfyn gêm bêl-droed fel aelod o dîm Nantlle Vale, yr holl ffordd o Benygroes i Plymouth, ble'r oedd Siân, yn perfformio. Cyrhaeddodd y ddau yn ôl i Fethesda Bach, ble'r oeddynt yn byw bryd hynny, yn oriau mân bore Sul, cyn i Siân fynd yn ôl efo'r trên fore Llundain!

Does ryfedd felly fod Siân yn cydnabod ei dyled a'i diolchgarwch, nid yn unig i Alan, ond hefyd mae'n deyrngar iawn i'w rhieni, Eirlys ac Owie. Yn ystod fy sgwrs â Siân roedd yn amlwg iawn ei bod yn ferch oedd yn cael, fel amryw ohonom, byliau o hiraeth pan mae hi oddi cartref ac, yn ôl ei chyfaddefiad hi ei hun, 'ar y ffôn bob munud a bilia ffôn mawr'.

Yn 1966 fe benderfynodd ddod adref a dod â'i gyrfa fel aelod o gwmnïau opera ac oratorio i ben.

Wedi genedigaeth Catrin Alaw cafwyd sbel fach i gysidro i ba gyfeiriad yr oedd am fynd, a rhaid oedd gwrthod gwahoddiadau i

fynd yn ôl i fyd yr opera. Daeth cyfle i gynnal sawl cyngerdd a chanu fel unawdydd gyda gwahanol gorau meibion, er enghraifft aeth i'r Almaen gyda Chôr y Penrhyn, a bu'n unawdydd gyda Chôr Dinbych y Pysgod (diolch i Owie am fynd â hi i'r ymarfer), a chafodd sawl cyngerdd gyda Chôr Meibion Maelgwn a chychwyn ar gyfeillgarwch gyda R. Davy Jones a'i briod.

Merch yr Hen Nodiant yw Siân, er gwaethaf y pwyslais mawr a roddai Brian Hughes yn y Coleg ar y Sol-ffa.

Bu am gyfnod yn cynnal cwrs perfformio yng Ngholeg Menai ym Mangor cyn derbyn ei swydd bresennol, sef ymweld ag ysgolion Dyffryn Conwy i gyflwyno gwersi canu, ac mae'n cynnal gwersi gartref yn Llanwnda hefyd. Mae'r llwyddiant a ddaeth i ran un o'i disgyblion, Elin Mai o Lanberis, sydd newydd ryddhau ei CD gyntaf, wrth reswm yn peri balchder mawr i Siân ac mae'n proffwydo dyfodol disglair i Elin.

Pleser gweddol newydd a ddaeth i'w rhan yw canu deuawdau gyda'i brawd Emyr – hyn wedi awgrym gan Annette Bryn Parri. Gobeithio y clywir y ddeuawd honno ar CD cyn bo hir.

Tybed, gofynnais a fu tro trwstan yn ei gyrfa?

'Do, fwy nag unwaith. Ar y ffordd i fwy nag un cyngerdd mi wnes i anghofio copïau o'r caneuon a gorfod troi yn ôl, ond mewn cyngerdd ym Mangor gyda John Eifion, roedd yn rhy hwyr i mi fynd adref i'w cyrchu. Holodd Annette, y gyfeilyddes, pa ganeuon roeddwn am ganu ac wedi i mi enwi sawl cân, atebodd yn hamddenol a diffwdan nad oedd angen poeni. Dangosodd ei dawn aruthrol fel cyfeilyddes drwy gyfeilio drwy'r cyngerdd heb gopi o gwbl!'

Hoff unawd Gymraeg Siân yw 'Cwm Pennant' gan Meirion Williams ac, o edrych yn ôl ar ei gyrfa broffesiynol, mae'n cyfaddef iddi fwynhau pob munud, er y cyfnodau o waith hynod o galed. Mae clywed nodau agoriadol cerddorfa mewn opera, oratorio neu mewn cyngerdd yn dal i roi iasau iddi, fel ag yr oedd wrth sefyll yn hyderus cyn camu i'r llwyfan ers talwm.

Ni fyddai Siân nac Alan yn gwrthwynebu i Catrin, y ferch, ddilyn yr un llwybr â'i mam i'r byd cerddorol, os byddai'n dymuno hynny, ac mae ei hoffter o gerddoriaeth yn amlwg. Tybed ai chwarae i Nantlle Vale, fel ei dad, fydd hanes Siôn Wyn gan ei fod, medd ei fam 'wedi mopio eto ffwtbol...'

Wrth reswm mae Siân yn eithaf balch o'r llwyddiant a ddaeth i'w rhan ac yn cydnabod ei dyled i sawl un am gynnal ei breichiau ar hyd y daith. Ac mae Siân Wyn Gibson yn dal i gyfareddu cynulleidfaoedd gyda'i llais swynol a'i phersonoliaeth ddiffwdan.

ROL WILLIAMS
(CD Siân Wyn Gibson *Suo Gan*)

DEINIOLLEN

Mrs Margaret Cynfi Griffith, Cynfi. Ffôn: (870394)



Plant y Dosbarth Meithrin wedi gwisgo yn eu gwisg Gymreig ar ddiwrnod dydd Gŵyl Dewi.

DYMUNA Elan, 15 Hafod Oleu, ddiolch o waelod calon i'w theulu a ffrindiau am yr holl gardiau ac anrhegion a gafwyd ar achlysur ei phen-blwydd yn ddiweddar.

DYMUNA Mrs Ann Jane (Nan) Owen, 48 Rhydfadog, ddiolch o galon i'w theulu, ffrindiau, cymdogion a llawer eraill am yr holl gardiau, rhoddion a dymuniadau am wellhad buan a dderbyniodd tra yn Ysbyty Manceinion, Ysbyty Gwynedd ac Ysbyty Eryri, ac hefyd am yr ymweliadau ar ôl dod adref. Dymuna ddiolch i'w theulu am bob gofal a dderbyniodd ganddynt oll. CYMANFA'R ANNIBYNWYR, CYLCH CWM Y GLO A DEINIOLLEN. Cynhelir y Gymanfa eleni ddydd **Sul, 20 Mai, am 2.00 o'r gloch yng Nghapel Jeriwsalem, Llanberis.** Taer erfynnir am eich presenoldeb. Trefnir bws i gludo aelodau Deiniolen, Penisarwaun, Cwm y Glo a Llanberis.

YSGOL GWAUN GYNFI
Dydd Gŵyl Dewi.

Daeth pawb, plant ac athrawon, i'r ysgol mewn gwisg Gymreig neu grys coch ar y diwrnod a chodwyd £120 tuag at gronfa'r ysgol.

Noswaith o Ddawns. Cynhelir Noswaith o Ddawns yn Galeri, Caernarfon, eto eleni ar nos Fawrth, 20 Mawrth. Bu plant o dri dosbarth yn cymryd rhan gyda gwahanol ddawnsfeydd.

Trwynau Coch. Casglwyd £147.55 wrth i'r plant dalu dirwy am wisgo'u hoff ddillad i'r ysgol ar ddydd Gwener, 16 Mawrth. Roedd lola a Catrin, dosbarth 5, wedi bod yn brysur iawn yn gwneud teisennau ar gyfer y diwrnod a gwerthwyd y cyfan i staff yr ysgol. Codwyd £9.19 at yr achos.

Ymweliadau

Swyddog Tân. Bu swyddog tân o'r Frigad Dân yma i siarad gyda phlant Dosbarthiadau Derbyn a 4. Pwysleisiwyd ar beryglon tân a'r camau i'w cymryd i arbed tân.

Pentre Peryglon. Ymwelodd plant blynyddoedd 5 a 6 â Phentre Peryglon, Talacre, Prestatyn, dydd Iau, 8 Mawrth.

Amgueddfa Lechi. Prynhawn Iau, 1 Mawrth, bu plant dosbarth Mrs Warrington yn ymweld â thai Fron Haul yn yr Amgueddfa Lechi, Llanberis, er mwyn iddynt weld sut roedd pobl yn byw yn y gorffennol. Cynllun Llythrennedd Teulu.

Cynllun llythrennedd i blant a rhieni yn yr Adran Babanod yw hwn. Bu 8 rhiant yn mynychu'r dosbarthiadau 2 waith yr wythnos am 12 wythnos.

LLONGYFARCHIADAU i Catrin Llewelyn Gruffudd, Sŵn yr Afon, Clwt y Bont am basio ei arholiad Piano gradd 2 gyda anrhydedd, yn ddiweddar. Hoffai Catrin ddiolch i'w hathro, Mr Elfed Morgan Morris, am ei gymorth. Da iawn, Catrin, caria ymlaen i ymarfer!!! EISTEDDFOD YR URDD CYLCH ARFON. Llongyfarchiadau i bawb o'r pentref a fu'n cystadlu yn ddiweddar yn Eisteddfod Cylch Arfon yn Ysgol Brynrefail ar ddydd Sadwrn, Mawrth 3ydd.

Bu parti canu'r ysgol yn cystadlu yn y gystadlaeth parti unsain, a daethant yn gydradd drydydd ar y diwrnod. Da iawn chi, Tomos, Rhys, Catrin, Lois, Enlli, Elliw Prys ac Eilis. Dymuna'r rhieni ddiolch i Mrs Delyth Hughes a Mrs Eleri Evans am ddysgu'r plant a rhoi y cyfle iddynt brofi hwyl a chyffro'r cystadlu.

GOHEBYDD YN YMDDEOL. Yn dilyn blynyddoedd lawer fel gohebydd yr Eco yn Neiniolen, mae Mrs Margaret Cynfi Griffith wedi penderfynu ei bod yn amser rhoi'r gorau iddi. Dymunwn ddiolch iddi am ei gwaith dros y blynyddoedd. Nid yw'n swydd sydd yn derbyn clod am y gwaith a wneir, ond heb unigolion fel yma ni fuasal cyhoeddiadau fel yr Eco yn gallu bod mor llwyddiannus.

Y gohebydd newydd ar gyfer Deiniolen fydd Nia Gruffudd, Sŵn yr Afon, 3 Stad Hafod Garegog, Clwt y Bont. Rhif ffôn: (01286) 872 133, neu cysylltwch ar e-bost: glyn.gruffudd@tesco.net

DIOLCH. Dymuna Alwyn a Valmai, Hafle, ddiolch o galon i'r plant, teulu, ffrindiau a chymdogion am y cardiau, arian a'r anrhegion a dderbyniwyd ar achlysur dathlu eu Priodas Ruddem.

MERCHED Y WAWR. Ar noson fwyaf stormus y flwyddyn, sef nos Lun, 5 Mawrth, cynhaliwyd Swper Gŵyl Dewi Merched y Wawr. Wrth lwc, nid oedd raid mynd ymhell, dim ond i'r Caban, sef hen Ysgol Brynrefail. Cawsom bryd o gawl cennin, cig oen Cymreig a bara brith a mwynhaodd pawb sgwrs wrth y byrddau. Rhyfedd oedd sylweddoli mai yn yr hen

Chweched Dosbarth, fwy neu lai, yr oeddym yn bwyta.

CYMDEITHAS CYFEILLION ELGWYS CRIST. Noson ysturmus oedd nos Lun, 4 Mawrth, ond er gwaethaf y tywydd daeth nifer i wrando ac i edrych ar luniau o'r Wyddfa yn yr haf a'r gaeaf, gan Mr Rod Taylor, un o wardeniaid y Parc Cenedlaethol a hefyd aelod o'r tîm Achub Mynydd. Er mor hardd ac urddasol i edrych arnynt, trist oedd clywed gan Rod Taylor am y dasg o fynd ar y mynyddoedd pan fydd damwain wedi cymryd lle, yn enwedig pan fydd rhywun wedi colli ei fywyd. Da o beth fuasai cael y noson yma unwaith eto, er mwyn i bawb gael gweld a chlywed profiadau y dynion a'r merched dewr hyn.

Bydd y cyfarfod nesaf nos Lun, 2 Ebrill, am 7.00 o'r gloch. Y siaradwraig wâdd fydd y Barchedig Angela Williams (Swyddog Plant yr Esgobaeth). Croeso cynnes i bawb.

DIOLCH. Dymuna Gracie Tate, 1 Bro Deiniol, ddiolch o galon i'w theulu, ffrindiau a chymdogion am yr holl garedigrwydd a ddangoswyd tuag ati, ac am y cardiau a'r ymweliadau pan oedd yn Ysbyty Gwynedd ac wedyn yn Ysbyty Eryri.

CHWIORYDD Y BYD. Daeth nifer ynghyd pan gynhaliwyd oedfa Dydd Gweddi Chwiorydd y Byd yng Nghapel Ebenezer ar 2 Mawrth. Trefnwyd y gwasanaeth gan ferched ifanc, a chymerwyd rhan gan famau ifanc ynghyd â rhai hŷn. Mrs Margaret Cynfi Griffith a Miss Betty Williams oedd yn cyfeilio a Mrs Buddug Jones oedd yr Arweinydd.

Y GYMDEITHAS UNDEBOL. Nos Lun, 26 Chwefror, cafwyd noson ddiffr iawn yn y Gymdeithas yn Neiniolen yng nghwmni Mr John Llewelyn Williams, Pen-y-golwg. Aeth â ni yn ei sgwrs o un pen i'r pentref i'r llall, gan sôn am rai o gapeli a siopau a chymeriadau'r pentref yn y blynyddoedd a fu. Cafwyd ymateb brwd iawn i'w sgwrs a diolchwyd iddo gan Mrs Jennie Williams.

RHANNU'R ECO. Mae angen rhywun i rannu'r Eco yn Rhydfadog, gan fod Mrs Lona Lewis yn dymuno rhoi'r gorau i'w rannu.

Tybed, hefyd, a oes enw wedi dod ymlaen i rannu'r Eco yng Nghlwt y Bont?

CRONFA YMDDIRIEDOLAETH DEINIOLLEN

Gwahoddir ceisiadau gan fudiadau a chymdeithasau pentref Deiniolen am roddion ariannol o'r gronfa uchod.

Dylai pob cais gynnwys mantolen ariannol gyfredol wedi ei harchwilio ac yn dangos enw llawn, cyfeiriad a rhif ffôn yr archwilydd.

Dylid anfon y ceisiadau i
Glyn Ll. Gruffudd, Sŵn yr Afon,
3 Hafod, Clwt y Bont,
Deiniolen, LL55 3DG.
Dyddiad cau: Ebrill 30, 2007

Cefnogwch ein hysbysebwy



**ORIEL
CWM
Cwm y Glo**

Ffôn/Ffacs: (01286) 870882

Gwasanaeth Fframio
Lluniau o bob math

ar gael ar y safle
Prisiau Rhesymol
Arddangosfa o luniau
gwreiddiol gan
Artistiaid Lleol

Richard S. Humphreys

I drin a thrwsio pob math o beiriannau gwnïo **MENAI SEWING MACHINE CENTRE**

**21 Stryd Fawr
PORTHAETHWY**

Ffôn: (01248) 714043

neu Caernarfon

Ffôn: (01286) 674520

Edau, Nodwyddau
ac ati mewn stoc

Cyngerdd Blynyddol Seindorf Arian Deiniolen

**MYNYDD GWEFRU
LLANBERIS**

**Nos Wener, 27 Ebrill
am 7.00 o'r gloch**

Yn ymuno â'r Band bydd
**Y Seindorf Ieuenctid
Côr Meibion y Brythoniaid
a John Eifion Jones**

Tocynnau ar gael wrth y drws.
Mwy o fanylion ar
<http://www.deiniolen.org.uk>

CDH

Ymgynghorwyr Ariannol
Annibynnol

27 Stryd y Bont, Caernarfon
(01286) 672727

a hefyd ein swyddfa newydd
8 Llys Onnen, Ffordd y Llyn,
Parc Menai, Bangor
(01248) 355055

Dewch atom am gyngor ynghylch
yswiriad a materion ariannol



Awdurdodir a rheolir gan yr
Awdurdod Gwasanaethau Ariannol

BRYNREFAIL

Mrs Lowri Prys Roberts-Williams, Godre'r Coed. Ffôn: 870580



Colin a Dorothy Wager ar ddydd eu priodas, 2 Chwefror 1957.

PRIODAS AUR. Llongyfarchiadau calonnog iawn i Colin a Dorothy Wager, Y Llythyrdy, ar ddathlu ohonynt eu Priodas Aur yn ystod mis Chwefror. Fe'i priodwyd ar 2 Chwefror, 1957, a threulio eu mis mêl yn Llangollen. Nid rhyfedd felly oedd i'r teulu gynnal dathliad annisgwyl o ail fis mêl i'r ddau yn Llangollen. Erbyn hyn mae iddynt bump o blant, deg o wyrion ac wyresau a thri o or-wyrion. Carai Colin a Dorothy ddiolch yn fawr i'w teulu oll a ffrindiau am eu dymuniadau da, blodau ac anrhegion ar yr achlysur arbennig hwn.

SEFYDLIAD Y MERCHED. Nos iau, 15 Mawrth, dathlwyd Gŵyl Ddewi gan y gangen leol yn Fferm Plas Tirion, Llanrug. Mwynhawyd

pryd bwyd o'r radd flaenaf a rhoddwyd cyfraniad arbennig i'r noson gan y gŵr gwadd, J. O. Roberts, Benllech.

COFION. Yn dilyn cyfnod yn Ysbyty Gwynedd, anfonwn gofion at Moira Ellis, Gweledfa. Da yw deall ei bod yn gwella yn raddol wedi dod gartref.

PEN-BLWYDD ARBENNIG.

Llongyfarchiadau mawr i Jennie Angharad Roberts, 2 Ffrwd Madog, ar ddathlu ei phen-blwydd yn 80 oed ar 20 Mawrth. Cafodd ddiwrnod arbennig gyda dathliad yn y cartref a llu o aelodau'r teulu, cymdogion a ffrindiau yn galw gydol y dydd i ymuno yn yr achlysur hapus.


YR EGLWYS BRESBYTERAIDD.

Roedd yr oedfa nos Sul, 18 Mawrth, dan arweiniad y Parchg Dafydd Lloyd Hughes, Caernarfon. Roedd ei genadwri arbennig o Lyfr Sechareia yn arwain at gyflwyniad oedd yn egluro y cynllun arfaethedig sydd ar droed i benodi Swyddog Ieuencid a Phlant i fro *Eco'r Wyddfa*. Cafwyd darlun clir o'r amcanion a gofynion ariannol y cynllun o safbwynt yr Eglwys a chafodd pawb gyfle i drafod ar y terfyn.

Y GYMDEITHAS. Erbyn hyn mae Rhaglen o gyfarfodydd y Gymdeithas wedi eu dosbarthu gan yr Ysgrifennydd, Mr John McBryde. Bydd y cyfarfod cyntaf am 7 o'r gloch nos iau, 12 Ebrill, yn Ystafell Gymunedol y Caban. Croeso cynnes i bawb ymuno yn y cyfarfod cyntaf hwn yng nghwmni y Parchg Emlyn Richards, Cemaes.

OEDFAON EBRILL.

- 1: 10.00 Parchg. Ddr. Elwyn Richards, Caernarfon;
- 8: **SUL Y PASG**
5.30: Parchg Dafydd Lloyd Hughes. Gweinyddir y Sacrament o Swper yr Arglwydd.
- 15: 5.30: Mr John H. Hughes, Llanberis
- 22: 5.30: Parchg Gerallt Lloyd Evans, Llangristiolus;
- 29: 5.30: Mrs G. Alwena Williams, Llanddona.



**GWYNANT
PIERCE**

Cynryrchion Coed:
Gatiau, Ffensus ac ati
am brisiau cystadleuol

Uned 1, Fferm Bryn Afon
LLANRUG

Ffôn: (01286) 674183
(0589) 899901

**BWRDD YR IAITH
GYMRAEG • WELSH
LANGUAGE BOARD**

Noddir gan
Lywodraeth
Cynulliad Cymru



Fframia Gwasanaeth Fframio Lluniau

Arbenigwyr ar fframio gwaith edau a nodwydd

Nifer helaeth o luniau ar werth • Dewis eang yn cynnwys:

**WILLIAM SELWYN • KEITH ANDREW
KEITH BOWEN • ROB PIERCY**

PARC PADARN, LLANBERIS (870922)

(Ar gau dydd Sul a dydd Llun yn ystod y gaeaf)

DINORWIG

Miss Marian Jones, Minallt, 7 Bro Elidir, Dinorwig. 870292

CLWB ORWIG. Cyfarfu aelodau'r clwb ar 22 Chwefror yng Nghanolfan Blue Peris. Cyflwynodd John Cantrell, y Llywydd, y siaradwr gwâdd, sef Mr Fred Williams, Llywydd Gwynedd a Môn o Gymdeithas Osteoporosis. Cafwyd llawer o wybodaeth ganddo am Glefyd Osteoporosis, neu Esgryn Brau, sy'n achosi i un o bob dwy wraig ac un o bob pum gŵr dros eu hanner cant oed dorri esgryn.

Penderfynodd yr aelodau gefnogi'r elusen trwy gasglu ceiniogau a darnau 5 ceiniog. Gobeithir hefyd trefnu achlysur arbennig rhywbryd yn ystod y flwyddyn i godi mwy o arian.

Cyflwynwyd rhodd i Ray Bower, yr Ysgrifennydd, ar achlysur ei ben-blwydd. Rhoddwyd y te gan Nellie Wyn Jones a Morfudd Jones. Enillwyd y raffl gan Betty Lloyd Roberts, Kthleen Davies, Nellie Wyn, Terry Taylor a Rose Cantrell.

* * *

Ar 1 Mawrth, daeth aelodau'r Clwb ynghyd i ddathlu Dydd Gŵyl Dewi. Yr oedd cinio arbennig wedi ei baratoi ar ein cyfer gan staff Canolfan Blue Peris. Yn dilyn, bu'r aelodau'n cyd-ganu alawon Cymreig, gyda Mrs Betty Lloyd Roberts fel unawdydd. Darllenwyd peth o hanes ein nawddsant gan bwysleisio pwysigrwyd i ni gofio'r

dydd gan Mrs Margaret Faoukener.

Darllenodd Mrs Megan Morris ran o draethawd o waith y diweddar Mrs Gwladys Evans, oedd yn sôn am ei dyddiau ysgol yma yn Ninorwig.

Cyflwynwyd blodau i Mrs Alice Griffith a Mrs Elizabeth Jones ar achlysur pen-blwydd y ddwy. Enillwyd gwobr y raffl, sef basged o ffrwythau a llysiau a oedd yn rhodd Glenys o'r Veg Van, gan Mrs Megan Morris. Mrs Betty Ll. Roberts oedd enillydd y fasged o flodau a drefnwyd ac a oedd yn rhodd gan Mrs Kathleen Davies. Enillwyd y tusw o gennin Pedr oedd Mrs Alice Griffith, Miss Morfudd Jones, Mr Rex Faulkener, Mr Terry Taylor a Mr Andrew Griffith.

DIOLCH. Rai dyddiau'n ôl, a hithau'n brynhawn braf, fe euthum am dro i'r Allt Ddu ac fe gefais fy synnu gan yr harddwch a welais. Yr oedd y gofeb i'r chwarelwyr yn sefyll mewn carped melyn o geninn Pedr, ac yn edrych yn fendigedig o dlws yn yr heulwen. Rhywbeth y buasai'r chwarelwyr yn falch iawn ohono, rwy'n sicr.

Rwy'n deall mai i Glwb Orwig y mae'r diolch am y fath arddangosfa hyfryd, felly carwn ddiolch yn fawr iawn i'r Clwb ac hefyd am y gofal y maent yn ei roi i'r gofeb. Mawr ddiolch.

Pasg Hapus i Ddarllenwyr yr Eco

**Mae pobl dros 50 oed yn
ymddiried yng nghynhyrchion
a gwasanaethau
Age Concern**

Yswiriant Cartref

Yswiriant Cerbydau a Diffyg ar y Modur

Yswiriant Teithio

Cynlluniau Angladd

Cyflenwadau Trydan a Nwy

Am fwy o wybodaeth ymwelwch â ni yn:

**AGE
Concern**

Age Concern Gwynedd a Môn
Tŷ Seiont, Ffordd Santes Helen,
Caernarfon, Gwynedd LL55 2YD

01286 678310

gan ddyfynnu'r cyfeirnod: ECO'R WYDDFA

Mae Age Concern Enterprises Ltd wedi ei reoleiddio gan yr Awdurdod Gwasanaethu Ariannol (FSA) ar gyfer yswiriant cyffredinol. Mae'n gweithredu o tua 300 o Age Concern lleol ledled y DU.

ARVONIA

CONCEPT

cpt

- Gwyliau cerbyd Prydeinig a Chyfandirol.
- Rhaglen Tripiâu Dyddiol.
- Cerbydau moethus ar gael ar gyfer llogi preifat.
- Cerbyd 7 ac 14 sedd ar gael ar gyfer teithwyr maes awyr ac ar gyfer llogi preifat.
- Adran teithiau grŵp – yr holl drefniadau wedi'u gwneud: archebiadau gwesty a llong, teithiau, archebiadau theatr a digwyddiadau.



Y Sgwâr, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd LL55 4AA

Ffôn: 01286-675175 Ffacs: 01286-671126 E-bost: info@arvonian.co.uk

Gwefan: www.arvonian.co.uk

CHWARAEON

Pleidiol Wyf i'm Gwlad?

Fe all rhywun ddadlau am oriau beth yw gwir ystyr y gair 'cefnogwr'. Fe ellir dadlau mai cefnogwyr Man. U. neu timau Glannau Merswy yw'r mwyafrif o ddilynwyr y bêl-gron yn y gogledd. Faint ohonynt sy'n mynychu gemau sy'n fater arall. 'Tria di gael tocyn,' yw'r gri arferol. 'Meddylia faint mae hi'n gostio,' medd eraill.

Ac yna'n tîm cenedlaethol. Pob gêm yng Nghaerdydd - ond am Leichtenstein bwerus ar y Cae Ras. 'Rhy ddrud - a dim gobaith ar gyfer gêm nos Fercher,' meddai'r Gogs.

Digon gwir. Yr un modd, pryd ddaeth y Scarlets i ardal ogleddol eu rhanbarth ddiwethaf?

Yna daeth cyfle i ni, ddilynwyr y bêl-hirgron, fynd i gefnogi ar ein stepan drws mewn gêm hanesyddol. Ymweliad Cymru â'r Weriniaeth, a'r gêm bêl-droed gyntaf ar Parc na Chroiche. Bydd 75,000 yno, gyda siâr cefnogwyr Cymru o'r tocynnau yn 6000.

Yn anhygoel mae'r F.A. wedi dychwelyd 1,500 o'r tocynnau. Ni allwn fel gwlad gael 6000 i fynd i Ddilyn! Rhaid cyfaddef fod problem gan fod rhaid i bob cefnogwr pêl-droed gofrestru bellach ar gyfer pob gêm 'dramor'. (Anodd meddwl am Ddilyn yn dramor i unrhyw Gymro.) Fel arfer mae dros 20,000 o 'Gochion' yn heidio yno ar gyfer y gemau rygbi rhyngwladol. Yn wir, rwyf wedi clywed nifer o hogia 'pêl-droed' yn dweud nad ydynt yn mynd i Ddilyn gan eu bod wedi bod ym Mharis, Caeredin neu Rufain. A oes patrwm yma tybed?

Ai mynd i gefnogi'r tîm mae'r rhelyw (rhan uchel nad ânt i'r gêm) ar benwythnos rygbi, neu mynd am resymau cymdeithasol? Ydy hi'n haws cael tocyn rygbi na phêl-droed? Pam nad oes rhaid cofrestru ar gyfer gemau rygbi dramor? Cwestiynau dyrus, y dylsai'r gwir gefnogwyr gael ateb iddynt. Oes gwahaniaeth sylfaenol rhwng dilynwyr y ddwy gêm? Ai 'sant' yw pob cefnogwr rygbi, ai 'diafol' yw pob cefnogwr pêl-droed? Sgersli bilif!

Fel un fuasai fod wrth ei fodd yn Nulyn, rhaid i mi ofyn pa hysbysebïaeth fu ynglŷn â'r 1500 tocyn a ddychwelwyd? Rwyf wedi trefnu sawl trip o'r ysgol i Gaerdydd ar gyfer gemau Cymru, ac roeddwn ar yr enwog 'mailing list'. Ni chefais unrhyw gyswllt ynglŷn â'r gêm hon.

Fel arfer, rwy'n sgriblo'r llyth yma cyn y gêm. Mae gwir angen buddugoliaeth arnom, ac yn erbyn San Marino. Gyda'n tîm cryfaf rwy'n teimlo y gallem gael 4 pwynt allan o'r ddwy gêm, a chynnal rhyw fath o fflam. Os bu unrhyw un ohonoch chwi ddarllenwyr draw yn Nulyn, gobeithio i chwi fwynhau y stadiwm ysblennydd, y gêm a'r craic!

Anlwcus i Bwy?

Bore dydd Sul arferol. Darllen y papur *Wales on Sunday* ac edrych am ganlyniadau timau'r ardal. Cambrintio amlwg: **Sealand Leisure 1 Llanrug 13!** Digwydd bod yn Lanrug, ac ie, roedd y canlyniad yn gywir.

Aeth â fi'n ôl i'r noson 'ryfedd' honno ychydig flynyddoedd yn ôl pan gipiodd hogiau Eithin Duon bencampwriaeth Gwynedd oddi wrth Machno ar wahaniaeth goliau. Ydych chi'n cofio'r sgôr? Llanrug 17 - UCNW 0! Defnyddiais ddwy feiro i gadw sgôr y noson honno!

Yna edrych ar y tabl a sylwi mai dim ond 19 gêm gynghrair oedd y clwb wedi eu chwarae. Y rheswm, wrth gwrs, yw'r rhediadau da yn y cwpanau, yn enwedig y Cookson. Mae'n ymddangos mai Llanrug fydd 'pencampwr' y fro eleni.

Gaiff Cymru Gyfle i Fatio?

Mae eira ar Eryri ac mae Pacistan yn herio Zimbabwe yn haul y Caribi. Ie, adeg Cwpan y Byd criced, ac eisioes cafwyd ambell i ganlyniad 'rhyfedd' a digwyddiadau trist, fel marwolaeth Bob Woolmer ac ymddygiad hollol annerbyniol Flintoff.

Y cwestiwn ofynnwyd i mi gan *Taro'r Post* oedd a ddylai Cymru fod yno. Yn fy marn i, dylent. Mae'r Iwerddon wedi cyfiawnhau eu presenoldeb. Yr Alban, Canada, Kenya? Yn sicr. Yr Iseldiroedd, cfallai. Ond y Bahamas?

Yr wrthddadl yw fod Cymru yn rhan o'r **England and Wales Cricket Board**. O'm blaen mae fy ffurflen gofrestru ar gyfer dyfarnu, wedi ei gyrru dan logo yr **ECB**!!

Y mae'r Cymry'n cael cyfle i chwarae i Loegr, meddai'r gri o Loegr bell. Fel Hamilton a Dougie Brown yn nhim yr Alban, sydd wedi chwarae i Loegr. Neu'r tri Gwyddel sy'n chwarae i siroedd Lloegr, ac felly'n gymwys i gynhyrchio Lloegr. Neu Ed Joyce, y

Gwyddel, sy'n agor y batio i Loegr!

Yn anffodus, rwy'n meddwl ei bod hi'n siwtio Morgannwg i ddal ynglwm â'r EWCB. Yr arian sy'n dod o'r ffynhonnell hon o'r elw gemau prawf sy'n cadw eu trwynau uwch y dŵr. Hefyd mae cynnal y Gêm Brawf yn y gyfres Llundw nesaf yn eu gwaedu. Ychydig mae'n ymddangos fydd yr elw i'r gêm griced yn ei gwreiddiau.

Beth am dîm Cymreig? Simon Jones, Geraint Jones, Robert Croft, a dau neu dri arall o dîm Morgannwg. Yna chwaraewyr ar lefel clwb sy'n cynhyrchio tîm Cymru yng nghystadleuaeth y 'Siroedd Llai'. O gofio ei berfformiadau cyson gyda'r bat a'r bêl i dîm Sully ym mhrif adran y de, mae'n siŵr y buasai ein 'seren' bach ni, Tom Evison, yn y ffrâm. Beth amdani felly ar gyfer Cwpan y Byd nesaf.

Canmolwn yn awr ein Merched Talentog

Campau yn ymwneud â dŵr sy'n cysylltu dwy ferch arbennig iawn. Yn y pwll nofio mae Stel Farrar o Ddinorwig yn serenu, tra bod Justine Curgenvin, o Fachwen, yn paratoi i herio tonnau y Môr Tawel.

Campau Stel yn gyntaf. Rydym fel ardal yn ymwybodol o frwdfrydedd Stel mewn sawl maes dros y blynyddoedd. Dyma un o bobl mwyaf cystadleuol ein hardal, rwy'n siŵr, ond pob amser â gwên ar ei hwyneb. Mae Stel yn mwynhau herio a gosod safonau. Daeth ei hawr fawr yn y pwll nofio yn Abertawe yn ystod

cystadleuaeth y Meistri Cymreig. Cynhyrchiolai dîm Arfon, sy'n ymarfer ym Mangor. Y drefn oedd nofio 1500m - tua milltir mewn hen bres - sy'n cyfateb fel arfer i ryw 20 munud o nofio ddi-stop. Yn ystod y ras, nodir yr amseroedd dros 200m, 400m, 800m a'r amser terfynol. Nid yn unig enillodd Stel y fedal aur, ond sefydlodd record newydd am y pedwar hyd, yn y dull rhydd.

Gyda llaw, i gyrraedd Abertawe, roedd wedi gadael cartref am 4a.m i ddal y trênn, ac yna rhuthro o'r pwll cyn derbyn ei medal i ddal y tren yn ôl. Dyna beth yw ymroddiad yn sicr.

* * *

Un o ynys Jersey yw Justine yn wreiddiol, ond erbyn hyn wedi ymgartrefu yn y Fachwen. Mae hi'n ymwneud â'r maes a elwir yn Gampau Eithafol (*Extreme Sports*). Y mis diwethaf heriodd Justine a'i kayak y 230 milltir o Gulfor Bass sy'n gwahanu ynys Tasmania a thir mawr Awstralia. Rhennir yr her yn wahanol adrannau, gydag un rhan yn golygu padlo am 10 awr yn ddi-stop. Yn sicr dyma wthio doniau corfforol a meddyliol i'r eithaf.

Yn yr haf bydd Justine a dau gyfaill yn teithio o amgylch ynysoedd Queen Charlotte yng Nghanaada. Fel arfer, bydd Justine yn creu rhaglenni ar ffilm o'r gwahanol deithiau, a cawsant eu dangos dros y blynyddoedd ar sianeli y National Geographic, BBC a Sianel 4.

Braint yw cael cydnabod camp y ddwy, ac ar yr un pryd rhyfeddu at y doniau amlfaesog sydd yn yr ardal hon.

R.M. (DIC) PARRY

PEINTIWR AC ADDURNWR

PRISIAU RHESYMOL

TAWELFA, PENISARWAUN

Ffôn: (01286) 870846



Harddwch eich cartref gyda

FFENESTRI CELTIC WINDOWS

FFENESTRI • DRYSAU • CONSERFATERIS
CYFLENWYR AWDURDODAU LLEOL

Busnes teuluol gyda blynyddoedd o brofiad
Ffoniwch - 'dio'n costio dim i gael pris

HEN YSGOL GLANMOELYN
LLANRUG LL55 2RG



(01286) 678618 (dydd)
(01248) 670081 (nos)

